TGAU

# CBAC TGAU
# Celf a Dylunio

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Canllawiau Addysgu

Addysgu o 2025

Dyfarnu o 2027



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

# Cynnwys


Cyflwyniad ..... 1

- Nodau'r Canllawiau Addysgu ..... 1
- Ffyrdd ychwanegol y gall CBAC gynnig cymorth: ..... 1
- Cysylltau cyflym ..... 1
- Asesu ..... 2
- Crynodeb o'r Asesu ..... 2
- Trosolwg o Uned 1 ..... 2
- Trosolwg o Uned 2 ..... 2
- Amcanion Asesu'r Cymhwyster a Phwysoliadau ..... 3

Canllawiau i Athrawon ar Gynnwys y Fanyleb ..... 4

- Profiadau Dysgu ..... 18
- Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru ..... 28

Dehongli Amcanion Asesu mewn Llwybrau ..... 66

- AA1 ..... 66
- AA2 ..... 66
- AA3 ..... 67
- AA4 ..... 68


© WJEC CBAC Ltd. 2025

# Cyflwyniad

Mae TGAU Celf a Dylunio  CBAC wedi'i gymeradwyo gan Cymwysterau Cymru ac mae ar gael i bob canolfan yng Nghymru. Bydd yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn Haf 2027, gan ddefnyddio graddau A* i G.

## Nodau'r Canllawiau Addysgu

Prif nod y Canllawiau Addysgu yw helpu athrawon i gyflwyno TGAU Celf a Dylunio CBAC a chynnig canllawiau ar ofynion y cymhwyster a'r broses asesu.  **Ni fwriedir i'r Canllawiau Addysgu fod yn ddogfen gynhwysfawr i gyfeirio ati** ond yn hytrach i gynnig cefnogaeth i athrawon wrth ddatblygu cyrsiau ysgogol a chyffrous sydd wedi'u teilwra i anghenion a sgiliau'r dysgwyr. Mae'r canllawiau'n cynnig gweithgareddau posibl yn yr ystafell ddosbarth a chysylltau i adnoddau digidol defnyddiol (gan gynnwys ein deunyddiau digidol ein hunain, sydd ar gael yn rhad ac am ddim, a rhai o ffynonellau allanol) i roi syniadau ar gyfer gwersi diddorol ac atyniadol.

## Ffyrdd ychwanegol y gall CBAC gynnig cymorth:

- deunyddiau asesu enghreifftiol a chynlluniau marcio
- digwyddiadau dysgu proffesiynol
- adroddiadau arholwyr ar bob uned
- y gallu i gysylltu'n uniongyrchol â’r swyddog pwnc
- adnoddau ar-lein am ddim
- Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau
- Adolygiad Arholiad Ar-lein

## Cysylltau cyflym

- Themâu trawsbynciol – adnoddau penodol i'r llwybr sydd wedi'u hymgorffori mewn adrannau
- Sgiliau Trawsgwricwlaidd - adnoddau penodol i'r llwybr sydd wedi'u hymgorffori mewn adrannau

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Asesu
## Crynodeb o'r Asesu

| |
|---|
| **Uned 1: Portffolio**<br>Asesiad Di-arholiad<br>**60% o'r cymhwyster** **120 marc** |
| Bydd y gwaith sy'n cael ei gyflawni o fewn yr uned yn cael ei osod yn fewnol, yn cael ei farcio gan y ganolfan ac yn cael ei gymedroli gan CBAC. |
| **Uned 2: Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol**<br>**10 awr o waith dwys a manwl, ynghyd ag astudio paratoadol**<br>Asesiad di-arholiad<br>**40% o'r cymhwyster** **80 marc** |
| CBAC fydd yn gosod yr aseiniad wedi'i osod yn allanol, i'w farcio gan y canolfannau a'i gymedroli gan CBAC. |

## Trosolwg o Uned 1

Mae'r uned hon wedi'i llunio i alluogi dysgwyr i ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau o fewn y broses greadigol. Dylid annog dysgwyr i wneud darganfyddiadau personol a chymryd risgiau creadigol trwy eu hymchwiliadau eu hunain.

Bydd yn ofynnol i ddysgwyr gynhyrchu portffolio:
- drwy broject parhaus sy'n dangos datblygiad, mireinio, adfyfyrio a chyflwyniad
- sydd wedi'i osod yn fewnol, mewn ymgynghoriad â'r athro o fannau cychwyn personol a/neu a roddir
- yn seiliedig ar thema, cysyniad neu friff dylunio penodol.

## Trosolwg o Uned 2

Pwrpas yr uned hon yw cynnal ymchwil gyd-destunol ac ymarferol ac astudiaethau cefnogi yn ystod cyfnod paratoadol. Bydd hyn yn llywio ymateb y dysgwr yn ystod cyfnod o 10 awr o ffocws parhaus.

Mae'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol yn cynnwys 5 syniad mawr trosfwaol. Rhaid i ddysgwyr ddewis un syniad mawr yn unig a defnyddio unrhyw un o'r ysgogiadau o'r syniad mawr i lywio eu gwaith.


Bydd yn ofynnol i ddysgwyr gynhyrchu ymateb:
- gan ddangos datblygiad, mireinio, adfyfyrio a chyflwyniad
- sy'n seiliedig ar un o'r syniadau mawr.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn cymhwyso'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a ddatblygwyd yn ystod Uned 1 mewn ymateb i'r syniadau mawr a osodwyd gan CBAC.

Bydd yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol yn cael ei ryddhau i'r canolfannau cyn diwedd tymor yr hydref ym mlwyddyn olaf y cwrs er mwyn caniatáu amser i gynllunio a pharatoi deunyddiau cefnogi. Dylid rhyddhau'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol i ddysgwyr yn ystod tymor y gwanwyn ym mlwyddyn olaf eu hastudiaeth.

Enghreifftiau o Syniadau Mawr




Mae'r rhain yn enghreifftiau o syniadau mawr y gellid eu cynnwys yn yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol.

## Amcanion Asesu'r Cymhwyster a Phwysoliadau

| | | Uned 1 | Uned 2 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| AA1 | Datblygu syniadau a dangos dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol o ffynonellau | 15% | 10% | **25%** |
| AA2 | Mireinio gwaith trwy archwilio syniadau, gan ddewis ac arbrofi gyda chyfryngau, technegau, offer, technolegau digidol a phrosesau priodol | 15% | 10% | **25%** |
| AA3 | Adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain, a chofnodi syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau sy'n berthnasol i fwriadau wrth i'r gwaith fynd rhagddo | 15% | 10% | **25%** |
| AA4 | Cyflwyno ymateb personol ac ystyrlon sy'n gwireddu bwriadau ac yn dangos dealltwriaeth o iaith weledol | 15% | 10% | **25%** |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Canllawiau i Athrawon ar Gynnwys y Fanyleb

| 1.1 | | |
|---|---|---|
| **Ymhelaethiad o'r Cynnwys** | | **Canllawiau i Athrawon** |
| 1.1.1 | Dylai dysgwyr wybod a deall:<br>• y broses greadigol drwy archwilio syniadau ac arbrofi gydag amrywiaeth o gyfryngau, technegau, offer, technolegau digidol, a phrosesau sy'n briodol i'w bwriadau unigol eu hunain. | Dyma'r gofynion mwyaf sylfaenol o fewn y fanyleb.<br><br>Dylai dysgwyr ganfod ffyrdd o ddatblygu eu syniadau eu hunain a gallu gweithio gydag ystod eang o ddisgyblaethau celf a dylunio. Bydd hyn yn eu galluogi i ddefnyddio sgiliau newydd i ddal eu dychymyg er mwyn iddynt ddod yn greawdwyr annibynnol. Mae'n bwysig eu bod yn ymateb i ofynion y fanyleb yn eu ffordd bersonol eu hunain.<br><br>Dylid dysgu mewn ffordd analog a digidol a rhaid darparu'r sgiliau i ddysgwyr negodi dyfodol creadigol, p'un a fyddant yn parhau i astudio Celf a Dylunio neu beidio.<br><br>Er mwyn cefnogi dysgwyr hyd orau eich gallu, byddai'n ddefnyddiol pe gallech gadw eich ymarfer a/neu eich diddordebau creadigol eich hun mor ffres â phosibl er mwyn i chi fod yn y lle gorau i ysbrydoli ac annog dysgwyr i wneud yr un peth. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | |
|---|---|---|
| 1.1.2 | Dylai dysgwyr wybod a deall: sut mae celf, crefft a dylunio o amrywiaeth o ddiwylliannau, cymdeithasau a chyfnodau:<br>• yn adlewyrchu cyd-destun ei greu<br>• yn dylanwadu ar ddiwylliannau a chymdeithasau presennol<br>• yn dylanwadu ar ymatebion dysgwyr. | Dylid darparu amrywiaeth o ffynonellau ysbrydoliaeth gwahanol er mwyn ysgogi a hysbysu dysgwyr – dylai'r rhain gynnwys arteffactau, delweddau, dogfennau a chyfeiriadau cyfoes a hanesyddol. Dylai'r rhain fynd i'r afael â materion cymdeithasol, diwylliannol, gwleidyddol a chrefyddol.<br><br>Mae edrych ar waith o gyd-destunau eraill y tu allan i'w gwybodaeth eu hunain yn helpu dysgwyr i gynyddu eu gwybodaeth am gelf a dylunio a'u dealltwriaeth ohono i helpu i ysbrydoli syniadau newydd. Dylai dysgwyr gael eu hannog i ddeall arwyddocâd darn o waith celf a dylunio o fewn ei le mewn amser, cymdeithas a diwylliant.<br><br>Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn yn llwyddiannus, rhaid i athrawon gyrraedd ymhell y tu hwnt i'r traddodiad Ewropeaidd, gan osgoi tuedd ddiarwybod tuag at hyn. Yn yr un modd, rhaid i athrawon gofleidio cynefin ac effaith arlunwyr a dylunwyr lleol ar hunaniaeth a gwaith dysgwyr.<br><br>Mae'n bwysig nodi y bydd dysgwyr yn dod o amrywiaeth o gefndiroedd diwylliannol a bydd eu hannog i ddathlu hyn yn cefnogi dull annibynnol ac unigol o droi at eu gwaith. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | |
|---|---|---|
| 1.1.3 | Dylai dysgwyr wybod a deall:<br>• sut mae ystyr yn cael ei gyfleu drwy ystod eang o waith creadigol a sut mae'n cael dylanwad ar eu bwriadau creadigol a'u gwaith nhw eu hunain. | Gellir diffinio 'ystyr' ym maes celf a dylunio fel meddu ar arwyddocâd neu fel cyfleu neges benodol. Bydd yr 'ystyr' hwn yn cael ei bortreadu gan y creawdwr a'r person sy'n ymddiddori yn yr arteffact. Mae'n debygol o fod yn 'llawn mynegiant, meddu ar bwrpas, bod yn werth chweil'. Gellir ymhelaethu ar y syniad hwn o 'ystyr' i ddysgwyr drwy drafodaeth wrth adolygu gwaith celf neu ddylunio arall yn yr ystafell ddosbarth, orielau, stiwdios neu weithdai.<br><br>Er mwyn deall yn llwyr ac ymateb i 'ystyr' yn eu gwaith, mae disgwyl i ddysgwyr gymryd rhan yn llawn yn yr hyn maent yn bwriadu ei gyflawni. Pan fydd dysgwyr yn gweithio ar brosiect sy'n dal eu dychymyg, daw'r project yn ystyrlon yn awtomatig.<br><br>Y ffordd orau o gyflawni hyn yw yn y Portffolio a'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol er mwyn galluogi dysgwyr i archwilio'r syniadau a ddewiswyd ganddynt yn unigol. Er y gall tasgau gosod fod yn briodol yng nghamau cynnar y cymhwyster TGAU (h.y.: yn ystod dau dymor cyntaf Blwyddyn 10), mae'n annhebygol y bydd lefel briodol o 'ystyr' yn cael ei chanfod pan fydd dysgwyr yn cyflawni ymchwil a thasgau wedi'u cyfarwyddo gan yr athro. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | |
|---|---|---|
| 1.1.4 | Dylai dysgwyr wybod a deall:<br>• sut i ddadansoddi'n feirniadol ac adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill. | Er mwyn deall a gwella eu gwaith eu hunain, bydd angen i ddysgwyr ddysgu sut i edrych yn feirniadol ar eu gwaith eu hunain, ei dorri i lawr yn gydrannau a meddwl am yr elfennau gwahanol sy'n mynd gyda'i gilydd i greu'r darn cyfan.<br><br>Pan fyddant yn gallu gwneud hyn, byddant yn dechrau nodi synergeddau mewn agweddau gwahanol ar eu gwaith, meysydd y mae angen mewnbwn creadigol dyfnach arnynt a meysydd cryf i adeiladu arnynt. Mae'n bosibl y byddant yn sylwi ar hap ddeilliannau, gan gydnabod bod dewisiadau a ystyriwyd yn gamgymeriadau i ddechrau wedi datblygu mewn ffordd fanteisiol.<br><br>O hyn, gallant symud ymlaen i wella eu gwaith, gan adeiladu ar elfennau a nodwyd fel rhai cadarnhaol a chanolbwyntio ar newydd lle y bo angen. Os gall dysgwyr wneud hyn drwy eu gwaith dynodi eu hunain, bydd eu deilliannau'n llawer mwy llwyddiannus drwy eu perchnogaeth eu hunain o'r twf hwn. Dylai mewnbwn gan athrawon gefnogi hyn yn y camau cynnar.<br><br>Gallai dysgwyr hefyd gael eu hannog i adolygu gwaith ei gilydd, gan sicrhau bod y profiadau hynny yn parhau i fod yn brofiad cadarnhaol, yn ystod y cam adeiladu sgiliau.<br><br>Mae'r sgìl hwn yn gymwys nid dim ond mewn Celf a Dylunio, felly byddai cyfleoedd i drafod sut i gyflawni hwn gydag athrawon pwnc eraill o gymorth i integreiddio ar draws Profiadau Meysydd Dysgu a chefnogi'r pedwar diben.<br><br>Bydd y gallu hwn i ddadansoddi gwaith celf a dylunio yn adeiladu'r sylfeini ar gyfer adolygiad beirniadol a amlinellir yn 1.2.6 isod. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| 1.2 | | |
|---|---|---|
| **Ymhelaethiad o'r Cynnwys** | | **Canllawiau i Athrawon** |
| 1.2.1 | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• datblygu a gwneud gwaith ymchwil, gan ddefnyddio sgiliau archwilio a dadansoddi i gefnogi chwilfrydedd ymchwiliol dwys a manwl. | Mae Amcan Asesu 1 yn mynnu bod dysgwyr yn 'dangos dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol o ffynonellau'. Mae hyn yn aml yn gofyn am archwilio a dadansoddi rhai arlunwyr, genres neu syniadau sy'n bwysig yn gyd-destunol i broject y dysgwyr (yn y Portffolio a'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol).<br><br>Er mwyn cofleidio'r pedwar diben yn llawn, yn ogystal ag ymateb i AA1, dylid cefnogi ac annog dysgwyr i ddewis eu ffynonellau eu hunain, gyda chymorth, er mwyn iddynt gael y cyfle i fodloni'r chwilfrydedd hwn. Dylai athrawon fod yn agored i ddewis cyfeiriad y dysgwyr, gan ddarparu arweiniad ar briodoldeb yr arlunwyr a dylunwyr a awgrymwyd.<br><br>Mae'n bwysig ceisio ffynonellau sylfaenol ble bynnag y bo'n bosibl - gall cyfweliad neu sgwrs wedi'i chofnodi gydag oriel neu arlunydd cyfoes fod yn fwy gwerthfawr i'r dysgwr na rhestr o nodiadau bywgraffyddol o rywun sy'n methu bod ar gael. Dylai hyn gael ei ystyried yn unigol a dylid dilyn gweithdrefnau priodol. Yn yr un modd, mae gweld gwaith mewn bywyd go iawn yn brofiad heb ei debyg, er gwaetha'r arlunwyr a dylunwyr helaeth sydd ar gael drwy'r rhyngrwyd. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025



Yn yr un modd, mae AA2 yn gofyn i ddysgwyr ‘archwilio syniadau, dewis ac arbrofi â chyfryngau priodol’. Er ei bod hi'n glir na fydd modd i ysgolion ddefnyddio pob techneg sydd ar gael, dylid annog dysgwyr i arbrofi â defnyddio defnyddiau ac arddulliau newydd o fewn y paramedrau y gall yr ysgol eu cynnig.

Er ei bod yn hollbwysig bod dysgwyr yn agored i amrywiaeth o brofiadau ac arddangosiadau gweithdy yn rhan gynnar y cwrs TGAU, nid oes mantais mewn dangos sawl techneg wahanol ym mhortffolio'r dysgwr oni bai bod gan yr ymchwiliadau bwrpas a'u bod yn amlwg wrth ddatblygu deilliant.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | |
|---|---|---|
| 1.2.2 | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• datblygu a mireinio sgiliau ymarferol a thechnegol, gan gyfleu bwriad artistig gyda phwrpas. | Mae'r strwythur a awgrymir ar gyfer y cwrs yn galluogi i ymroi dau dymor cyntaf Blwyddyn 10 i feithrin sgiliau yn y Llwybr dethol. Yr athro fydd fwyaf tebygol o gyflwyno'r sesiynau hyn drwy arddangos technegau y maent yn gwybod amdanynt neu gallent gael eu cyflwyno gan asiantaethau allanol. Gall hyn gynnwys arbenigeddau fel (nid yw'r rhestr hon wedi'i chyfyngu i'r canlynol):<br><br>• paentiad ar gynfas<br>• cerfluniaeth gerfwedd neu intaglio<br>• brodwaith peiriant digidol<br>• rhaglenni graffeg digidol fel Photoshop<br>• gwneud modelau<br>• defnyddio peiriant mwyhau i argraffu cyfryngau seiliedig ar olau.<br><br><br><br>Dylai'r cyfle hwn i ddefnyddio amser i ddatblygu a mireinio sgiliau ymarferol gynnwys lluniadu – gofyniad o'r Fanyleb. Bydd gan bob Llwybr ddull ychydig yn wahanol - gellir defnyddio adnoddau digidol a ddarparwyd gan CBAC i gefnogi hyn.<br><br>Wrth i ddysgwyr symud ymlaen i gam Portffolio'r cwrs, mae'r sgiliau hyn yn debygol o gael eu datblygu ymhellach – naill ai gyda chymorth yr athro neu wedi'i ysgogi gan ddymuniadau annibynnol y dysgwr. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | |
|---|---|---|
| | | Lle y caiff y gwaith datblygu a mireinio hwn ei gyflwyno gan yr athro, er y gall y gwaith gasglu sgiliau cychwynnol gael ei addysgu i'r garfan gyfan, er mwyn ymateb yn llwyddiannus i Amcan Asesu 2 drwy arbrofi, dylid annog pob dysgwr i ddatblygu eu gwersi cychwynnol mewn ffordd sy'n tyfu i mewn i broject personol ac yn ei gefnogi.<br><br>Lle y caiff gwaith archwilio ei ysgogi gan y dysgwr, mae dyletswydd ar athrawon i gefnogi hyn lle bynnag y bo'n briodol. Nid oes rhaid i athrawon feddu ar y sgiliau i ddangos pob techneg bosibl, ond yn hytrach gallant annog dysgwyr i ymchwilio drostynt eu hunain - mae llawer iawn o sesiynau tiwtorial ymarferol ar-lein sy'n cwmpasu amrywiaeth eang o dechnegau ar gyfer pob Llwybr. Yn hyn o beth, gall dysgwyr ddatblygu sgiliau a ddymunir sy'n ystyrlon iddynt.<br><br>Yn y naill achos neu'r llall, dylai dysgwyr sicrhau bod eu gwaith arbrofi yn ystyrlon ac y caiff ymchwiliadau a gwaith mireinio eu cyflawni gyda phwrpas. Ni ddylid annog y gwaith o ddatblygu samplau nad ydynt yn gysylltiedig er lles arbrofi ei hun fel rhan o Uned 1 neu Uned 2. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | |
|---|---|---|
| 1.2.3 | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• defnyddio ac addasu sgiliau lluniadu ar gyfer gwahanol anghenion a phwrpasau. | Pwysleisir pwysigrwydd lluniadu, wedi'i ddefnyddio yn ei ystyr ehangaf fel dull cofnodi a ffordd o archwilio iaith weledol, yma.<br><br>Mae'r gallu i luniadu yn ofyniad o'r Fanyleb Celf a Dylunio. Ym mhob Llwybr, rhaid i ddysgwyr ddangos tystiolaeth o luniadu o fewn Uned 1 ac Uned 2. Mae ffyrdd amrywiol o ymateb i hyn ac mae pob Llwybr yn cynnig cyfle i ddatblygu sgiliau lluniadu gwahanol o fathau amrywiol - gellir defnyddio adnoddau a ddarparwyd gan CBAC i gefnogi hyn. Ni chaiff lluniadu ei asesu ar wahân i'r corff o waith a gyflwynwyd ond dylid ei ymgorffori ynddo.<br><br>Mae lluniadu'n diwallu amrywiaeth o rolau ac mae sawl pwrpas gwahanol iddo. Gall lluniadu fod ar ffurf brasluniau, astudiaethau arsylwi dadansoddol, byrddau stori, brasluniau bawd, cynlluniau, gwaith bras, astudiaethau arbrofol neu fynegiannol, modelu dau neu dri dimensiwn, dyluniadau manwl a lluniadu gyda golau. Gellir lluniadu gan ddefnyddio adnoddau digidol neu gyfryngau traddodiadol neu gan ddefnyddio cyfuniad o'r ddau. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | |
|---|---|---|
| | | Lle y bo'n bosibl, dylid annog dysgwyr i luniadu o ffynonellau sylfaenol, ni waeth pa Lwybr a ddilynwyd. Efallai na fydd cyfleoedd i fanteisio ar hyn yn amlwg i'r dysgwr ar unwaith, felly dylai athrawon gefnogi dysgwyr i fyfyrio ar y posibiliadau y gellid eu hystyried, er enghraifft:<br><br>• lluniadu ffigurau<br>• lluniadu o ffynhonnell gerddorol<br>• lluniadu o beiriant erthygl Colossal<br>• lluniadu digidol<br>• lluniadau gweithio<br>• lluniadau a ganfuwyd |
| 1.2.4 | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• datblygu ymatebion creadigol personol dychmygus a greddfol i ysgogiadau. | Er mwyn cefnogi dysgwyr i ddiwallu'r ymateb llawn dychymyg a chwilfrydedd hwn, mae'n debygol y bydd angen i ddysgwyr wneud y penderfyniadau ar eu gwaith oherwydd eu bod yn teimlo y gallant fod yn frwdfrydig am yr hyn maent yn ei wneud, dangos diddordeb ynddo a phoeni amdano. Nid i'r rhai sy'n dechnegol gryf yn unig mae hyn yn gymwys; mae'r holl waith lle mae buddiannau personol y dysgwyr yn glir yn gryfach na lle mae athrawon wedi arwain dysgwyr ar hyd llwybr a arweinir.<br><br>Gall fod yn heriol dod o hyd i ysgogiad a allai ysbrydoli dysgwyr. Gellir cymryd pynciau ar gyfer Uned 1 o bapurau aseiniad wedi'i osod yn allanol a gyhoeddwyd yn flaenorol, a ddatblygwyd o sefyllfa neu amgylchiadau lleol, neu a ysbrydolwyd gan ymweliad ag oriel neu stiwdio/gweithdy i weld gwaith arlunwyr a dylunwyr eraill.<br>Mae gan lawer o ddysgwyr ddiddordebau y tu allan i'r ystafell ddosbarth lle y gellir eu trochi ar gyfer eu gwaith Uned 1 a gallai'r athro feddu ar y sgìl o 'adnabod eu dysgwyr' er mwyn helpu i ysgogi man cychwyn priodol. Gan y bydd yn rhaid i ddysgwyr weithio ar Uned 1 am gyfnod sylweddol o amser, cynghorir athrawon i sicrhau eu bod yn ymddiddori'n llwyr yn yr hyn maent yn ei wneud. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | |
|---|---|---|
| 1.2.5 | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• defnyddio meddwl creadigol wrth ddefnyddio offer, defnyddiau a thechnegau i greu, mireinio a chyflawni canlyniadau sy'n arddangos pwrpas a bwriad clir a dangos dealltwriaeth o iaith weledol. | Wrth ddatblygu sgiliau gan ddefnyddio unrhyw fath o gyfryngau ym mhob Llwybr, er mwyn mireinio gwaith yn llwyddiannus i ymateb yn llawn i AA2, dylai'r gwaith o archwilio technegau drwy arbrofi ag adnoddau, defnyddiau a thechnegau gwahanol fod yn gyfeiriadol. Ar ôl myfyrdod, dylid gwneud penderfyniadau ynghylch beth fydd yn gweddu orau i broject y dysgwyr a'i symud ymlaen mewn cyfeiriad diddorol ac o bosibl, arloesol.<br><br>Gall anodi gwaith sy'n mynd rhagddo helpu i egluro cynnydd i'r dysgwr wrth iddo fyfyrio ar ei waith a gall helpu'r athro sy'n asesu a'r cymedrolwr i ddirnad bwriad y dysgwr.<br><br>Nid yw ailadrodd i greu cyfaint mewn gwaith datblygu yn ofynnol ac ni chaiff farciau; mae'n well dewis a dethol samplau i esbonio'r cyfeiriad y mae'r dysgwr wedi'i ddilyn a'r rhesymau am y penderfyniadau a wnaed ganddo.<br>Dylid creu cysylltiadau clir rhwng y cyd-destun cychwynol, y cam archwilio ac arbrofi, myfyrdod y bwriadau hyn a chyflawni ymateb ystyrlon. Gellir ystyried newidiadau mewn cyfeiriad, ond byddai diffyg pwrpas neu fwriad amlwg yn awgrymu bod y bandiau marciau uchaf yn annhebygol o gael eu cyrraedd. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | |
|---|---|---|
| 1.2.6 | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• cymhwyso meddwl beirniadol i amrywiaeth eang o gelf, crefft a dylunio o gyd-destunau amrywiol, gan gynnwys ffynonellau y mae pobl eraill wedi dylanwadu arnynt, o wahanol leoedd a chyfnodau gwahanol. | Mae meddwl beirniadol yn gofyn i ddysgwyr wneud y canlynol:<br><br>• bod yn ymwybodol o'r rhesymau dros yr hyn y maent yn ei feddwl a'r hyn y maent yn ei wneud<br>• cwestiynu a gwerthuso'n feirniadol eu meddyliau a'u gweithredoedd eu hunain<br>• cyflwyno'n eglur i bobl eraill y rhesymau dros eu meddyliau a'u gweithredoedd<br><br>Fel rhan o'r ymchwiliad cyd-destunol sy'n digwydd, fel rheol yng nghamau cynnar Uned 1 ac Uned 2, datblygu dealltwriaeth o'r canlynol:<br><br>• pam y mae gwaith wedi'i gynnal,<br>• beth sydd wedi dylanwadu arno,<br>• ble roedd yr arlunydd neu'r dylunydd yn gweithio a beth sy'n berthnasol yn hwn<br>• pwy arall oedd yn gweithio dan amgylchiadau tebyg bryd hynny (cyfoes neu hanesyddol)<br>• pa mor llwyddiannus y cyflawnwyd y gwaith gan ddefnyddio technegau a chyfryngau perthnasol<br><br>Dylid addysgu'r patrwm hwn (neu un tebyg) yng nghamau cynnar blwyddyn 10 er mwyn ymgorffori'r dull hwn erbyn i Uned 1 ddechrau. Dylid rhoi cymorth i ddysgwyr ar sut i ymateb i waith celf, cynhyrchion a ddyluniwyd, deilliannau crefft a gwaith ffotograffig er mwyn iddynt ddatblygu'r sgiliau beirniadol hyn mewn ymateb i waith pobl eraill a gwaith eu hunain.<br><br>Wrth i ymchwiliadau a gwaith y dysgwyr eu hunain ddatblygu, bydd cymhwyso meddwl beirniadol er mwyn adfyfyrio a datblygu mewnwelediad yn hynod werthfawr yn AA3. Gellir addasu'r un cwestiynau i gefnogi dysgwyr i fyfyrio a chymhwyso gwaith dadansoddi beirniadol at eu gwaith eu hunain. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | |
|---|---|---|
| 1.2.7 | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• ystyried eu bwriadau creadigol eu hunain a sut i'w cyfleu i gynulleidfa drwy gyflwyno, arddangos a/neu rannu eu gwaith creadigol eu hunain yn effeithiol ac yn briodol. | Ni ddisgwylir bod yr holl waith a wnaed yn ystod Uned 1 neu Uned 2 yn cael ei gyflwyno i'w asesu. Ar y cyd â'u hathro, dylai dysgwyr ddewis lefel briodol o waith sy'n dangos eu bwriadau a'u deilliannau yn glir. Dylid bodloni pob Amcan Asesu yn glir a dangos tystiolaeth – er bod hynny mewn natur gyfannol ar draws y gwaith cyfan.<br><br>Dylai dysgwyr ystyried effaith weledol eu gwaith a dylid cyflwyno gwaith paratoi a deilliannau Uned 1 ac Uned 2 mewn ffordd briodol.<br><br><br><br>Nid oes gofyniad penodol i ddefnyddio llyfrau braslunio na ffolderi, na natur yr arddangosfa, ond dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o effaith eu gwaith ar gynulleidfa.<br><br>Mae mathau o arddangosfa yn debygol o fod cryn dipyn yn wahanol ar draws Llwybrau a dylid darparu ar gyfer gwaith dau ddimensiwn, yn ogystal â thri dimensiwn. Dylid gwneud pob ymdrech i ddangos gwaith digidol ar y sgrin. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | |
|---|---|---|
| 1.2.8 | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain, ei fireinio a'i werthuso. | Mae'r gallu i fyfyrio ar eich gwaith yn sgìl pwysig ym mhob maes bywyd ac fe'i ddefnyddir mewn sawl pwnc arall. Siaradwch â chydweithwyr i rannu adnoddau a syniadau i atgyfnerthu pwysigrwydd gwerthuso er mwyn mireinio gwaith.<br><br>Gall athrawon arddangos eu hymarfer adfyfyriol eu hunain drwy ddangos i ddysgwyr eu bod yn gwerthuso'u dulliau eu hunain o addysgu yn barhaus, yn ogystal ag unrhyw waith ymarferol maent yn ymgymryd â nhw. |
| 1.2.9 | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• cydnabod sut y gall cynulleidfa ddehongli gwaith ac ymateb iddo. | Caiff hyn ei gysylltu'n agos â 1.2.7 uchod. |
| 1.2.10 | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• adfyfyrio ar a dadansoddi eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill yn feirniadol er mwyn:<br>  • llywio datblygiad syniadau<br>  • gwerthuso effeithiolrwydd prosesau a chanlyniadau gwaith creadigol<br>  • ystyried a yw'n trosglwyddo'r ystyr a'r pwrpas a fwriadwyd yn effeithiol<br>  • adolygu sut y gall cynulleidfa ddehongli gwaith ac ymateb iddo. | Caiff hyn ei gysylltu'n agos ag 1.2.6 – 1.2.8 uchod. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Profiadau Dysgu

Dylid annog dysgwyr i ystyried y profiadau a'r sgiliau dysgu canlynol i ddatblygu eu dealltwriaeth, gwerthfawrogiad a'u hymwybyddiaeth o gynnwys y pwnc ymhellach. Mae'r wybodaeth yn y tabl isod yn darparu cyfleoedd i athrawon integreiddio'r profiadau dysgu yn rhan o'u proses o gyflwyno'r pwnc.

| Profiad Dysgu | Ymhelaethiad o'r Profiad Dysgu |
|---|---|
| Profi amrywiaeth o weithiau proffesiynol drwy weithdai ac ymweld ag orielau/arddangosfeydd/amgueddfeydd naill ai yn y cnawd neu ar sgrin | Mae'r fanyleb yn galluogi athrawon i ddatblygu cwricwlwm sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer ystod lawn o ddarganfyddiadau creadigol artistig amrywiol eu cwmpas, parhad a dwysedd.<br><br>Ymhlith yr enghreifftiau o waith proffesiynol, mae'r gweithdai ar-lein a gynhelir gan y Tate Modern a datblygwyd adnoddau ar gyfer y cymhwyster. Ceir adnoddau hefyd fel 'Ewch i Weld' ar Hwb, sef casgliad rhithwir gan Gyngor Celfyddydau Cymru sy'n cynnig andoddau byw i athrawon a dysgwyr ill dau.<br><br>Mae'r profiadau hyn yn dangos i ddysgwyr sut mae arlunwyr a dylunwyr eraill yn mynd ati i ddatblygu eu syniadau a gall eu hysbrydoli i ddatblygu eu syniadau eu hunain. Mae adnoddau ar BBC Bitesize[1] lle mae pobl ifanc yn datgelu eu ffynonellau ysbrydoliaeth.<br><br>Mae rhaglenni pobl ifanc mewn sawl oriel gelf yng Nghymru fel:<br>• Oriel Mission, Abertawe<br>• MOMA, Machynlleth<br>• Mostyn, Llandudno<br>• The Rodd, Llanandras<br><br>Lle y bo'n bosibl, dylai athrawon wahodd arlunwyr a dylunwyr i ddod i ymweld ag ysgolion er mwyn trafod sut i ddatblygu eu syniadau drwy'r cyfryngau maent yn eu defnyddio. Gall canolfannau wneud cais am gyllid Rhowch Gynnig Arni a fydd yn cefnogi gweithgareddau ymarferol newydd os nad ydynt ar gael yn yr ysgol. Yn aml, mae myfyrwyr BA neu MA cyfredol yn fodlon dod i mewn i ysgolion i drafod eu hymarfer - yn enwedig os mai cyn-fyfyrwyr yr ysgol ydynt.<br><br>Datblygu eich sgiliau eich hun – mae gweithdai ar gael yn aml naill ai drwy wneuthurwyr lleol neu golegau celf<br>• Dylunio Patrwm Arwyneb, PCYDDS |

[1] Mae gan BBC Bitesize adnoddau Eduqas i'w defnyddio, ond byddwch yn ymwybodol bod gwahaniaethau rhwng manylebau.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | |
|---|---|
| Meithrin hyder wrth roi a derbyn adborth, gan hybu meddwl annibynnol, gwreiddioldeb a gwydnwch creadigol | Bydd dyluniad y fanyleb yn galluogi dysgwyr i ddatblygu ymatebion creadigol personol llawn dychymyg a chwilfrydig i ysgogiadau, gan gysylltu'r ymatebion hyn â llwybrau gyrfa posibl a phrofiadau cysylltiedig â gwaith. Dylid rhoi cyfleoedd ar gyfer adborth yn y dosbarth, adolygiadau gan gymheiriaid ac asesiadau ar gyfer dysgu[2].<br><br>Y ffordd orau i ddysgwyr ddatblygu'n arlunwyr a dylunwyr yw drwy fyfyrio ar eu gwaith. Mae sawl ffordd o annog hynny:<br><br>• Gwerthuso a dadansoddi adfyfyriol dan arweiniad<br>• Adborth cyffredinol gan athro<br>• Adolygiad gan gymheiriaid<br>• Arlunydd/dylunydd ar ymweliad/adolygiad gan athro<br><br>Mae'n hollbwysig bod yr holl brofiadau hyn yn dod yn gadarnhaol i ddysgwyr er mwyn iddynt fod yn rhydd i drafod eu gwaith a dod yn hyderus wrth gyflwyno'u gwaith am adborth, yn ogystal â bod yn barod i feirniadu gwaith pobl eraill (cymheiriaid wedi'u cynnwys).<br><br>Gellir cefnogi **myfyrdod a dadansoddi dan arweiniad** yn nghamau cynnar y cwrs TGAU drwy ddarparu taflenni gwerthuso wedi'u saernïo; mae llawer ar gael ar safleoedd rhannu adnoddau fel TES a gellir addasu'r rhain i weddu i'ch carfan. Dylai athrawon sicrhau y gall y rhain gefnogi deilliannau wedi'u gwahaniaethu.<br><br>Gellir cynnig ffordd o ddechrau brawddegau er mwyn helpu dysgwyr i ddechrau trafod eu gwaith. Bydd defnyddio'r 5 cwestiwn yn eu helpu i gofio hyn:<br><br>• Pwy fydd yn ei weld? Pwy yw'r gynulleidfa?<br>• Beth maen nhw wedi'i wneud? Hyd yma ... beth fyddant yn ei wneud nesaf?<br>• O ble y daw eu ffynonellau? Adfyfyrio ar gyd-destunau.<br>• Pam maen nhw wedi ei wneud? Beth ysbrydolodd y cam hwn o'r gwaith?<br>• Pryd byddant yn cwblhau'r cam? Oes ganddynt gynllun?<br><br>Drwy ymgorffori'r dull hwn yn eu dysgu yng ngham cyntaf Blwyddyn 10, bydd dysgwyr yn gallu integreiddio myfyrdod yn eu gwaith pan fyddant yn dechrau Uned 1. Gellid gwneud hyn drwy anodiadau ar draws astudiaethau llyfr braslunio/astudiaethau paratoadol neu'n fwy ffurfiol.<br><br>Gellir ystyried bod **adolygiad gan gymheiriaid** yn ystod y cam meithrin sgiliau yn heriol, ond o droi ato'n ofalus, gall fod yn ddylanwadol iawn. Dylid rhoi amser i ddysgwyr adolygu gwaith ei gilydd ar gamau allweddol yn y project. Annog dysgwyr i gyflwyno'u gwaith i'r grŵp, a chan ddefnyddio'r 5 cwestiwn a nodwyd uchod (yn yr achos cyntaf), esboniwch beth maent yn bwriadu ei gyflawni. Annog cymheiriaid i roi sylwadau cadarnhaol, gan seilio'u cyfraniad ar yr amcanion asesu, gan gynnig syniadau ar sut i'w cyflawni. Bydd |

2Cyfeiriwch at Atodiad Ch - Canllaw i Reolaethau yn y DAE

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | |
|---|---|
| | hyn yn darparu mewnwelediad gan gymheiriaid ond hefyd yn atgyfnerthu dealltwriaeth o sut bydd derbynyddion a darparwyr yr adborth yn bodloni'r amcanion asesu.<br><br>Gall **adolygiad gan arlunydd ar ymweliad/dylunydd/athro** gynnig safbwynt amgen ac ategol na safbwynt prif athro'r dosbarth. Gallai hyn gael ei ddarparu gan unrhyw ymwelwyr sy'n darparu gweithdai, myfyrwyr celf neu hyd yn oed athrawon cysylltiedig eraill yn yr ysgol. Er mwyn rhoi hyn ar waith, dylai'r adolygydd ddarparu rhywfaint o wybodaeth gyffredinol ymlaen llaw, er mwyn cynnal y cyfeiriad cyffredinol.<br><br>Mae adnodd defnyddiol i gefnogi 'Dadansoddi a gwerthuso' yn BBC Bitesize[3].<br><br>I gloi gwersi, gellir annog dysgwyr i werthuso'r hyn a gyflawnwyd ganddynt yn ystod y wers honno, a hynny yn erbyn yr amserlen maent yn gweithio iddi a nodi rhywbeth i weithio arno gyda dyddiad cau wedi'i hunanosod, gan roi profiad o wneud penderfyniadau a hunanddisgyblaeth.<br><br>**Adborth ffurfiannol yr athro Canllawiau CGC**<br>Gall athrawon wneud y canlynol:<br>• adolygu gwaith ymgeiswyr a rhoi cyngor ar lafar ac yn ysgrifenedig ar lefel gyffredinol.<br>• cynnig cyngor ar lefel gyffredinol, caniatáu i'r ymgeiswyr adolygu ac ailddrafftio gwaith.<br><br>Nid oes angen cofnodi arweiniad cyffredinol tebyg i hyn na'i ystyried wrth farcio'r gwaith. Os bydd athrawon yn rhoi unrhyw gymorth sy'n mynd y tu hwnt i gyngor cyffredinol, yna rhaid iddynt gofnodi'r cymorth hwn a'i ystyried naill ai wrth farcio'r gwaith neu wrth gyflwyno'r gwaith i'r arholwr allanol.<br><br>Ymhlith yr enghreifftiau o'r cymorth hwn mae:<br>• rhoi cyngor manwl a phenodol ar sut i wella fersiynau drafft er mwyn bodloni'r meini prawf asesu.<br>• rhoi adborth manwl ar wallau a hepgoriadau sy'n cyfyngu ar gyfleoedd ymgeiswyr i ddangos y gallant weithio ar eu liwt eu hunain.<br>• ymyrryd yn bersonol i wella cyflwyniad neu gynnwys darn o waith.<br><br>Ni chaniateir arweiniad gan athrawon neu eraill i werthuso cynnydd a nodi dulliau bras o wella yn ystod Uned 2 i gyd. |

[3] Mae gan BBC Bitesize adnoddau Eduqas i'w defnyddio, ond byddwch yn ymwybodol bod gwahaniaethau rhwng manylebau.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | |
|---|---|
| Cyfleoedd i ymchwilio, cymryd risgiau a goresgyn heriau creadigol | Drwy ganolbwyntio ar arbrofi, cymryd risgiau, lluniadu a chymhwyso elfennau ffurfiol, mae dyluniad y cymhwyster yn grymuso dysgwyr i ymchwilio i themâu pwrpasol ac ystyrlon sy'n helpu i fyw bywydau llawn boddhad fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.<br><br>Rhan o'r gwaith archwilio ac astudio celf a dylunio yw meithrin dealltwriaeth o'r risgiau creadigol y mae arlunwyr a dylunwyr wedi'u cymryd drwy hanes ac yn ystod y diwrnod presennol i gwestiynu a herio cymdeithas, amgyffrediadau a normau cymdeithasol.<br><br>Gellir gwneud hyn drwy astudio arlunwyr a dylunwyr fel:<br>• William Blake<br>• Yr Argraffiadwyr a'r Salon des Refuses<br>• Gwen John: ymysg y dynion<br>• Avant-garde a radicaliaeth<br>• Y Bauhaus a moderniaeth<br>• Dull radicalaidd y Mynegiadwyr Haniaethol i beintio<br>• Uwch-sêr a moesoldeb creadigol: Warhol i Hirst.<br><br>O astudio arlunwyr fel y rhain, dylai dysgwyr feithrin dealltwriaeth o'r cynnydd o ddinodedd neu wawd er mwyn cyflawni mawredd a dylanwad. Mae'r rhain yn wersi pwysig i'w dysgu mewn celf ac maent yn ffurfio rhan hanfodol o agwedd gymdeithasol a diwylliannol y cymhwyster.<br><br>Yn unol â hyn mae gallu celf a dylunio i fynd i'r afael â materion, h.y.: hiliaeth a stereoteipio rhywedd trwy gelf. Byddai archwilio gwaith print gwrth-hiliol Paul Peter Piech (ymweliad wedi'i drefnu ag Amgueddfa Cwm Cynon) neu archwilio rhywedd drwy adnodd Thinking about gender and bodies Tate yn galluogi dysgwyr i archwilio materion cymdeithasol a mynd i'r afael â nhw.<br><br>Mae llawer o'r trafodaethau hyn yn cyd-fynd yn agos â meysydd eraill o Feysydd Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiadol, gan gynnwys pynciau fel Dawns, Drama, Ffilm Ddigidol a Chyfryngau a Cherddoriaeth.<br><br>Mae integreiddio perfformwyr fel John Cale a William Bracewell, yn ogystal â chwmnïau fel Theatr Genedlaethol Cymru a digwyddiadau fel Gŵyl Dinas Gerdd Caerdydd yn cynnig cyfeiriadau a ffynonellau cyd-destunol priodol ar gyfer ymweliadau ac astudiaethau.<br><br>Trwy ddealltwriaeth gyd-destunol, arlunwyr a dylunwyr sydd wedi cymryd risgiau i ddatblygu eu gwaith yn llwyddiannus, daw cydnabyddiaeth o sut allai deimlo i gymryd risg yn bosibl. Dylai dysgwyr ddeall y gall cymryd risgiau ystyriol eu galluogi i wneud neidiau anghymesur i'w cyflawniad (wrth iddynt gael eu cefnogi i fethu wrth chwilio am ddatblygiad personol ar adegau priodol yn ystod y cwrs) ac mae'n wers amhrisiadwy ym mhob rhan o'r celfyddydau. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | |
|---|---|
| Magu ymwybyddiaeth o’r gwahanol yrfaoedd, rolau ac arferion gwaith unigol sy’n gysylltiedig â chynhyrchu celf, crefft a dyluniadau yn y diwydiannau creadigol a diwylliannol | Bydd dyluniad y fanyleb yn galluogi dysgwyr i ddatblygu ymatebion creadigol personol llawn dychymyg a chwilfrydig i ysgogiadau, gan gysylltu'r ymatebion hyn â llwybrau gyrfa posibl a phrofiadau cysylltiedig â gwaith.<br><br>Mae pob un o'r llwybrau yn y cwrs TGAU mewn Celf a Dylunio yn awgrymu llwybrau gyrfa gwahanol i'r dyfodol, ond ar y lefel hon, mae'r dolenni rhwng llwybrau yn gryf ac nid yw dewis un llwybr yn hepgor rhag symud i un arall yn y dyfodol.<br><br>Mae un o'r llwybrau ehangaf, Celf, Crefft a Dylunio yn ceisio cwmpasu'r holl lwybrau a disgyblaethau amrywiol ym maes Celf a Dylunio. Mae *celfyddyd gain* yn awgrymu llwybrau gyrfa i beintio a cherflunwaith, gosodiadau, creu ffilmiau, darlunio a churadu. Wrth reswm, mae *dylunio tecstilau* yn arwain at ddylunio ffasiwn, yn ogystal â dylunio tecstilau wedi'u printio a'u gwehyddu a pheirianneg tecstilau.<br><br>Mae datblygu tecstilau cynaliadwy ac arloesol yn faes sy'n tyfu'n sylweddol, sy'n gyson â gwyddoniaeth a thechnoleg. Wedi'i gysylltu'n agos â hyn, gall *dylunio tri dimensiwn* arwain dysgwyr tuag at bensaernïaeth, dylunio gemwaith, cerameg neu ddylunio dodrefn ac archwilio defnyddiau a sut maent yn ymddwyn. Mae *cyfathrebiadau graffig* yn yr oes ddigidol yn ganolog i'n hangen cymdeithasol ar gyfer y gymuned, rhannu gwybodaeth a defnyddio iaith weledol i greu negeseuon a deunyddiau marchnata. Mae potensial *ffotograffiaeth* fel dull analog a digidol o gyfleu delwedd wedi ffrwydro ar raddfa fasnachol a chelfyddydol, gan alluogi dysgwyr i archwilio disgyblaethau cysylltiedig ffilm ac animeiddio, drwy ddulliau masnachol, dogfennol a golygyddol.<br><br>Mae'r defnydd o dechnoleg ddigidol mewn celf yn llywio llawer o lwybrau gyrfa a bydd profiad o'r apiau a'r rhaglenni soffistigedig hyn o fantais fawr mewn gyrfaoedd o fewn y celfyddydau a'r tu allan iddi. Bydd trin delweddau digidol ar gyfer ffotograffau, creu cymeriadau digidol drwy dechnegau cyfathrebu ac animeiddio graffig, y defnydd o raglenni dylunio tri dimensiwn i archwilio syniadau mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn yn cyfrannu at ddyfodol digidol.<br><br>Er mwyn i ddysgwyr allu archwilio llwybrau gyrfa, mae gan bob un o'r Syniadau Mawr o fewn yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol yr opsiwn i ymateb i friff ysgrifenedig. Yn y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol, mae'r opsiynau hyn yn mynd i'r afael â'r canlynol (heb fod yn bendant nac yn gynhwysfawr):<br>• Cymeriad lleol – a allai wahodd ymateb yn y llwybr Dylunio 3D sy'n archwilio noddfa dros dro; neu ymateb ar ffurf ffotograffiaeth sy'n cefnogi'r dull golygyddol o dynnu sylw at faterion.<br>• Casgliad amgueddfa – a allai gynnwys ymateb gan y Llwybr celfyddyd gain sy'n ystyried ymateb i arddangosfa gyfredol; neu ymateb cyfathrebiadau graffig i greu deunydd hysbysebu i gefnogi digwyddiad sydd ar ddod.<br>• Dathlu strwythur – gallai ymchwilio strwythur o ffurfiau naturiol, gan ysbrydoli ymateb drwy ddylunio tecstilau i greu dilledyn, neu ganlyniad celf, crefft a dylunio sy'n archwilio patrwm a grëwyd |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | |
|---|---|
| | gan strwythurau drwy gyfrwng gwneud printiau.<br>• Digwyddiad cymunedol – ymhlith pethau eraill, mae'n awgrymu ymateb i rali balchder drwy gyfrwng Ffotograffiaeth er mwyn dathlu amrywiaeth neu; drwy waith Celf, crefft a dylunio i ddylunio baneri i'w harddangos.<br><br>Gellir dangos adnoddau fel y wefan Creative Careers a rhestr o'r gyrfaoedd sydd ar gael drwy Restr Gyrfaoedd NSEAD i ddysgwyr er mwyn eu helpu i archwilio gyrfaoedd i'r dyfodol yn y pwnc. Yn ogystal â hyn, mae Tate wedi creu ffilm fer, gyda chymorth Bob a Roberta Smith, am bwysigrwydd addysg gelf.<br><br>Gallai dyfyniad ysbrydoledig i'w rannu gyda dysgwyr, neu a ddangoswyd yn yr ystafell ddosbarth gynnwys:<br><br>*‘It was really when I was at art school that I started to see the relationship between history, philosophy, politics and art. Prior to that I thought that art was just making pretty pictures – actually art is connected to life.’*<br>Yinka Shonibare |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | |
|---|---|
| Defnyddio technoleg ddigidol fel sy'n briodol i'r llwybr a ddewiswyd | Mae dyluniad y fanyleb yn galluogi ar gyfer ystyried mynediad canolfan i dechnoleg ddigidol a sut y gellid ei ddefnyddio yn y llwybr a ddewiswyd. Mae llwybrau fel Dylunio graffig a Ffotograffiaeth yn fwy tebygol o ddefnyddio technoleg ddigidol yn unol â disgresiwn y ganolfan.<br><br>Mae technoleg ddigidol yn gymwys i *bob* llwybr yn y cymhwyster TGAU mewn Celf a Dylunio. Nid oes angen dangos tystiolaeth o'r defnydd o dechnoleg ddigidol, ond mae'n ddymunol dangos integreiddio technoleg a deall y defnydd ohoni mewn amrywiaeth o elfenau sy'n gymwys i Uned 1 a 2. Os na fydd adnoddau digidol ar gael mewn canolfan, ni fydd unrhyw effaith ar lefelau cyflawniad posibl dysgwyr.<br><br>Ffyrdd amrywiol o ddefnyddio technoleg ddigidol mewn Celf a Dylunio:<br>• Gellir defnyddio llechi ar gyfer lluniadau o unrhyw fath, gan ddefnyddio apiau arbenigol.<br>• Gallai cyfrifiaduron bwrdd gwaith gael eu hystyried ar gyfer gwaith darlunio trymach neu raglenni CAD.<br>• Gellir cynnal gwaith ymchwil ar y rhyngrwyd, gartref ac mewn ysgolion a chreu llyfrau lloffion digidol ar Pinterest i gofnodi ffynonellau eilaidd os yn gymwys.<br>• Mae camerâu ar ffonau yn gwbl dderbyniol fel adnoddau ffotograffiaeth digidol, ond mae'n dal i fod yn ddefnyddiol dysgu defnyddio SLR digidol os ydyw ar gael.<br>• Gellir trafod ffotograffau, ond os cyflawnir hyn yn awtomataidd drwy ddefnyddio deallusrwydd artiffisial, rhaid esbonio hyn ar ffurflen datganiad yr ymgeisydd fel math o Ddeallusrwydd Artiffisial.<br><br>Mae technoleg ddigidol yn galluogi dysgwyr i weithio yn eu hamser eu hunain yn fwyfwy, a hynny ar eu dyfeisiau eu hunain. Yr athro fydd yn dilysu'r gwaith hwn, felly mae'n bwysig deall galluoedd dysgwyr i osgoi anghysondeb a'u gweld nhw'n gwneud rhywfaint o'r gwaith o leiaf yn ystod amser y dosbarth.<br><br>Caiff Deallusrwydd Artiffisial ei integreiddio'n llawn i fywydau dysgwyr, ond efallai nad ydynt yn ymwybodol eu bod yn ei ddefnyddio. Unwaith eto, bydd adnabod y dysgwr a'u dull arferol yn hollbwysig. Lle mae dysgwyr yn gwneud cynnydd annisgwyl, mae'n bwysig gweld y dystiolaeth. Bydd hyn yn ffurfio rhan o'r gofynion dilysu.<br><br>Caiff y defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial fel dull ymchwil, adnodd digidol neu gynhyrchydd delweddau ei ganiatáu, ond **RHAID** datgan hynny a chyfeirio at y defnydd ohono yn yr anodiadau perthnasol yn y llyfr braslunio/gwaith paratoadol.<br><br>Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (DA) mewn Asesiadau: Diogelu Uniondeb Cymwysterau – Y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC) |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | |
|---|---|
| | Gellir defnyddio technoleg ddigidol yn ystod Uned 2, rhan 2 ond gall hyn fod yn broblem fawr. Dyma'r rheolau y mae'n rhaid eu dilyn:<br>• Ni chaniateir i ymgeiswyr ddefnyddio'u dyfeisiau eu hunain.<br>• Yn ystod y cyfnod gwaith dwys a manwl, caniateir i ymgeiswyr ddefnyddio rhaglenni meddalwedd ar y we, ond ni chaniateir unrhyw ddefnydd arall o'r Rhyngrwyd.<br>• Mae'n rhaid nad oes mynediad posibl i'r gwaith rhwng sesiynau.<br><br>Mae angen cymryd rhagofalon ychwanegol os yw'r ganolfan yn caniatáu i ymgeiswyr ddefnyddio cyfrifiaduron i storio gwaith. Gall hyn gynnwys casglu ffyn cof i'w storio'n ddiogel rhwng sesiynau neu rwystro ymgeiswyr rhag cael mynediad i ardal benodol o rwydwaith TG y ganolfan (CGC).<br><br>Cyfrifoldeb y ganolfan yw cydymffurfio â'r holl ofynion uchod a bydd athrawon yn llofnodi ffurflen datganiad yr ymgeisydd i gydnabod hyn. Bydd diffyg cydymffurfiaeth â hyn mewn unrhyw ffordd, hyd yn oed os yw'n anghywir, yn cael ei hystyried fel amheuaeth o gamymddwyn. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | |
|---|---|
| Magu ymwybyddiaeth sylfaenol o ystyriaethau moesegol a chyfreithiol fel sy'n briodol | Dylai dysgwyr, wrth fireinio technegau, hefyd ddod yn ddinasyddion deallus gydag ymdeimlad cryf o foeseg, gan ddeall eu rôl yn y byd ehangach a chyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas.<br><br>Yn ystod y cwrs astudio TGAU, dylid addysgu dealltwriaeth sylfaenol i ddysgwyr o beth yw eiddo deallusol a sut y caiff ei diogelu drwy reolau fel hawlfraint. Dylid ystyried hyn mewn perthynas â'u gwaith eu hunain a gwaith eraill.<br><br>Math o dorri eiddo deallusol yw **llên-ladrata** a rhaid gwneud hyn yn glir i ddysgwyr. Mae hyn yn ymestyn i gopïo gwybodaeth gair am air o wefannau, yn enwedig lle y caiff ei gyflwyno fel ymchwil. Mae angen gwneud dysgwyr yn ymwybodol na fydd credyd yn cael ei roi pan fyddant yn ceisio cyflwyno gwaith fel eu gwaith eu hunain. Lle mae llên-ladrata yn amlwg yng ngwaith un o'r dysgwyr, a lle mae'r dysgwr wedi llofnodi'r datganiad dilysu, rhaid rhoi gwybod amdano i CBAC gan ddefnyddio ffurflen berthnasol CGC lle mae amheuaeth fod ymgeisydd wedi camymddwyn.<br><br>Rhaid atgoffa dysgwyr hefyd fod unrhyw gopïo anghydnabyddedig yn sgil atgynhyrchu deunydd o adnodd deallusrwydd artiffisial anghydnabyddedig, lle mae dysgwr yn ceisio cyflwyno'r gwaith hwnnw fel ei waith ei hun, a lle mae dysgwyr wedi llofnodi'r datganiad dilysu, hefyd yn cael ei ystyried fel amheuaeth fod ymgeisydd wedi camymddwyn. Rhaid rhoi gwybod am y digwyddiadau hynny hefyd i CBAC gan ddefnyddio ffurflen berthnasol CGC lle mae amheuaeth fod ymgeisydd wedi camymddwyn.<br><br>Lle y caiff y math hwn o lên-ladrata ei weld yn aml ar draws yr holl waith mewn canolfan, gellir ystyried hyn fel amheuaeth fod canolfan/staff canolfan yn camymddwyn. Lle y caiff y gwaith a gopïwyd ei gyflwyno fel trawsgrifiad a astudiwyd, caniateir hyn ond disgwylir y bydd ymgeiswyr yn dangos yr hyn a ddysgwyd ganddynt yn ystod y broses. Rhaid i anodi esbonio nad syniad gwreiddiol yr ymgeisydd ei hun yw'r gwaith a drawsgrifiwyd. Lle canfuwyd bod canlyniadau terfynol wedi'u copïo o waith arlunwyr neu ddylunwyr eraill, ni roddir marc ar gyfer yr elfen honno o'r gwaith.<br>Llên-ladrata mewn Asesiadau - CGC Cyd-gyngor Cymwysterau<br><br>Ymdrinnir â'r defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial uchod, dylid mynd i'r afael â hyn yn y dosbarth a'i amlinellu fel mater moeseg, yn ogystal ag esbonio'i ddefnydd mewn gwaith wedi'i asesu.<br><br>Dylid helpu dysgwyr i ddatblygu cynnydd mewn ymwybyddiaeth gymdeithasol. Mae'n bwysig meddu ar ddealltwriaeth sy'n datblygu o normau cymdeithasol y gorffennol er mwyn rhoi cyd-destun i'w gwaith cyfredol. Fel gyda meysydd pwnc eraill, caiff agweddau newidiol mewn cymdeithas drwy ragfarn ar sail hil, rhyw, trefedigaethedd, dosbarth a rhyw eu gweld yn glir drwy lens hanesyddol a dylid mynd i'r afael â nhw gyda dysgwyr wrth i'r cyfle i drafod godi (mewn ffordd briodol i oedran). |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | |
|---|---|
| | Gallai enghreifftiau fod:<br>• Paul Gaugin a'r menywod o Tahiti a beintiodd,<br>• safbwynt y dyn ym myd celf,<br>• gwaith y merched Gerila,<br>• Murlun Rex Whistler yn ystafell fwyta Tate.<br><br>Bydd trafod y pynciau hyn yn helpu dysgwyr i fod yn ddinasyddion ystyriol gyda'r gallu i ddatblygu eu gwaith yn ddiogel ac yn foesegol i wireddu eu huchelgeisiau.<br><br>Un dyfyniad a allai gael ei rannu gyda dysgwyr neu ei ddangos yn yr ystafell ddosbarth yw:<br><br>*‘If anything, art is about morals, about our belief in humanity. Without that, there simply is no art.’*<br>Ai Weiwei |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru

<table>
<tr><th colspan="4">Llinynnau Cwricwlwm i Gymru</th></tr>
<tr><th colspan="4">Themâu sy'n trawstorri</th></tr>
<tr><td rowspan="3">Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol</td><td colspan="3">Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol mewn TGAU Celf a Dylunio. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i Ddysgwyr oherwydd, wrth ymateb i'r Portffolio a'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol, mae Celf a Dylunio yn mynnu dealltwriaeth gyd-destunol eang gan ddysgwyr i ddehongli eu cynefin eu hunain, ac i ddeall gwaith arlunwyr a dylunwyr o ddiwylliannau a chefndiroedd amrywiol, er mwyn trosi hyn yn ymatebion ystyrlon a phersonol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut y gellid ymgorffori Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol yn yr addysgu a dysgu:</td></tr>
<tr><td>Cyfeirnod y Fanyleb</td><td>Ymhelaethiad</td><td>Enghraifft:</td></tr>
<tr><td>1.1.2</td><td>Rhaid i ymchwiliadau celf, crefft a dylunio godi o amrywiaeth o ddiwylliannau, cymdeithasau ac amseroedd amrywiol i ddylanwadu ar ymatebion y dysgwyr</td><td>Enghraifft o Gelfyddyd Gain:<br>Gall dysgwyr ddewis ymchwilio i waith Gus Payne, sef arlunydd ffigurol o Gymru y mae ei waith yn 'cyfeirio at fythau, llên-gwerin tylwyth teg, crefydd a'r hanes a rennir gennym'.<br><br>Yn dilyn hyn, gallent ddewis ymchwilio i waith o gyd-destun cenedlaethol sy'n canolbwyntio ar feysydd diddordeb tebyg fel Paula Rego. 'Fel peintwraig "straeon", mae ei chymeriadau'n cymryd amrywiaeth o rolau ac yn disgrifio tensiynau anesmwyth o dan yr wyneb '.<br><br>Gallai'r dysgwr fynd ymlaen i chwilio am ymatebion i beintio naratif o gyd-destun rhyngwladol ehangach, er mwyn deall yn llwyr ddulliau a allai lywio eu gwaith eu hunain. Gallent edrych ar waith Amy Sherald, sy'n archwilio bywyd a straeon cyfoes Americanwyr Duon drwy bortreadau. 'Imagination allows you to bend the rules of the</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | *temporal world. I just want them to see that a more beautiful world exists beyond the confines of your environment.'*<br><br>Byddai hyn yn galluogi dysgwyr i ehangu eu dealltwriaeth o ddiwylliannau, cymdeithasau ac amseroedd amrywiol a fyddai'n rhoi cyfleoedd ar gyfer ymatebion ystyrlon ac wedi'u hysbysu'n llawn.<br><br>***Enghraifft o Decstilau:***<br>Gallai dysgwr ddewis ddatblygu sgiliau mewn gwaith tecstilau cyfryngau cymysg. Er mwyn cefnogi hyn, gallent archwilio gwaith Delita Martin, sef arlunydd cyfryngau cymysg Americanaidd sy'n printio, yn pwytho, yn lluniadu ac yn peintio ar bapur.<br><br>Drwy'r ymchwil hon, gallent benderfynu archwilio'u hanes a'u lle eu hunain yn eu cymuned, gan edrych ar waith Haf Weighton, yr amgylchedd lleol a beth mae'n ei olygu iddynt.<br>Byddai hyn yn gwneud i ddysgwyr ddeall pa mor amrywiol y gellir ymchwilio i ddiwylliannau a chymdeithasau mewn cyd-destun ymarferol a chymharu a chyferbynnu profiadau er mwyn galluogi twf datblygiadol, yn ogystal â darparu cyfeiriad cadarnhaol gyda sgiliau ac ymarferwyr lleol. |
| | 1.2.6 | *Rhaid i gymhwyso meddwl beirniadol at amrywiaeth eang o gelf, crefft a dylunio ddod o gyd-destunau amrywiol, gan gynnwys ffynonellau y mae pobl eraill wedi dylanwadu arnynt, o wahanol leoedd a chyfnodau gwahanol* | ***Enghraifft o waith Celf, Crefft a Dylunio:***<br>Wrth ddatblygu sgiliau ymarferol mewn cerameg yng nghamau cynnar y cwrs TGAU, gallai dysgwyr ymchwilio i greu llestri o waith llaw. Gallent gael eu cyflwyno i waith y ceramegydd o Gymru Paul Taylor, sy'n creu gwaith seiliedig ar slabiau trwm eu gwead.<br><br>Gallent edrych ar dechneg adeiladu â llaw amgen fel potiau torch drwy waith Kate Malone.<br>Er mwyn datblygu hyn ymhellach, gallai dysgwyr gael eu cyfarwyddo i ddeall gwreiddiau hanesyddol creu potiau â llaw ac ymchwilio i dechnegau crochenwaith Gorllewin Affrica neu Grochenwaith Gwerin Tsieina. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Mae casgliad ac archif ceramig nodedig ym Mhrifysgol Aberystwyth (Canolfan y Celfyddydau) sy'n werth ymweld ag ef - fel rheol, ceir arddangosfeydd dros dro yn yr orielau o ddisgyblaethau Celf a Dylunio amrywiol.<br><br>Byddai hyn yn galluogi dysgwyr i ddeall sut mae modd defnyddio celf a chrefft o wahanol leoedd ac amseroedd i ddylanwadu ar waith y dysgwyr eu hunain, drwy feddwl beirniadol.<br><br>***Enghraifft o Gyfathrebiadau Graffig:***<br>Gallai dysgwyr gael eu cyflwyno i darddiad y symudiad dylunio modernaidd a gafodd ddylanwad enfawr ar ddatblygu dylunio graffig a theipograffi. Wrth ymchwilio i bwysigrwydd Y Bauhaus ar waith dylunio'r ugeinfed ganrif yn Ewrop a Gogledd America, gallai dysgwyr gael eu cyflwyno i'r cyd-destun yr oedd y Bauhaus yn gweithredu ynddo – rhwng y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd, diwedd Gweriniaeth Weimar a dyrchafiad y Blaid Natsïaidd yn yr Almaen.<br><br>Gallai ystyriaeth o'r dylanwad y cafodd y grŵp hwn o ddylunwyr (gweler Herbert Bayer ar ddatblygu gwaith dylunio graffig modern ei ddatblygu i waith asiantaethau dylunio graffig cyfredol a sut y caiff topograffi ei ddefnyddio i ddylanwadu ar ddyluniad brandiau.<br><br>Gallai dysgwyr edrych ar asiantaethau dylunio cyfoes fel Smorgasbord Studio yng Ngorllewin Cymru ac Amsterdam a'r Graphic Thought Facility yn Llundain i'w helpu i ddatblygu ysbrydoliaeth a syniadau ar gyfer project hunaniaeth gorfforaethol.<br><br>Byddai hyn yn galluogi dysgwyr i gydnaod pwysigrwydd cyd-destunau amrywiol wrth adolygu gwaith arlunwyr a dylunwyr, gan gydnabod y cysylltiadau y gellir eu cymhwyso ar draws cymdeithasau ac amser gwahanol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

<table>
<tr>
<td rowspan="3">Cynaliadwyedd</td>
<td colspan="3">Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Cynaliadwyedd mewn TGAU Celf a Dylunio. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr oherwydd wrth i ni barhau i symud tuag at ddyfodol mwy cynaliadwy, rhaid datblygu'r gofynion ymarferol ym maes celf a dylunio i fod yn rhan o gymdeithas fwy cyfrifol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut y gellid ymgorffori Cynaliadwyedd yn yr addysgu a dysgu:</td>
</tr>
<tr>
<td>Cyfeirnod y Fanyleb</td>
<td>Ymhelaethiad</td>
<td>Enghraifft</td>
</tr>
<tr>
<td>1.1.1</td>
<td>Dylid archwilio syniadau ac arbrofi gydag amrywiaeth o gyfryngau, technegau, adnoddau, technolegau digidol gan ddangos cyfrifoldeb i'r amgylchedd.</td>
<td>Enghraifft o Gelfyddyd Gain:<br><br>Mae defnyddio defnyddiau ac adnoddau sy'n gwbl gynaliadwy yn y byd celfyddyd gain yn her anferthol. Dylai dysgwyr ddatblygu eu sgiliau ymarferol er mwyn cael agwedd gynaliadwy at ddefnyddio ble bynnag y bo'n bosibl.<br><br>Dylai arferion cyffredinol annog y canlynol:<br>• Cyfyngu ar y gwaith o gymysgu lliwiau ac inciau arbenigol i'r hyn sydd ei angen a storio unrhyw rai dros ben yn y cynwysyddion ailgylchu at ddefnydd pellach.<br>• Defnyddio pigmentau ecogyfeillgar a defnyddiau diogel lle bynnag y bo'n bosibl.<br>• Gweithio gyda phapurau wedi'u hailgylchu<br>• Ystyried defnyddio cynfas wedi'i ailgylchu<br><br>Mae'n bwysig ystyried y broses o gael cyflenwyr a'u hirhoedledd – gwiriwch fanylion y brandiau i sicrhau eu bod yn cefnogi'r newid tuag at becynnu gwell, prosesau glanach, cael gafael ar ddeunyddiau a chynhyrchion yn gyfrifol ac osgoi gwastraff.<br><br>Er mwyn parhau i fod yn bwnc perthnasol a chyfrifol, mae'n hollbwysig ein bod yn annog dysgwyr i ddefnyddio'r dull hwn neu byddwn yn wynebu'r risg y bydd y dulliau a'r defnyddiau a ddefnyddiwn yn cael eu herio mewn byd mwyfwy ymwybodol o'r amgylchedd.</td>
</tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ***Enghraifft o Ddylunio Tecstilau:***<br>Mae dylunwyr tecstilau yn troi'n fwyfwy at gynhyrchion a defnyddiau naturiol er mwyn creu eu gwaith. Mae'r defnydd o lifynnau a phigmentau naturiol yn y broses o greu lliwiau yn faes diddordeb cynyddol. Mae arbenigwyr tecstilau fel Felin Fach wedi canolbwyntio ar greu pigmentau seiliedig ar blanhigion a chynnig mewnwelediad i'r defnydd ohonynt.<br><br>Mae ailgylchu ffibrau yn faes twf arall yn y diwydiant tecstilau a gallai annog dysgwyr i ddeall y cyfleoedd a allai godi o'r dull hwn gael ei ysbrydoli gan broject ailgylchu gwlân Adfer Melin Tregwynt<br>Yn wir, astudio Melin Tregwynt fel menter dylunio tecstilau gwbl gynaliadwy, o gael gafael ar y defnyddiau crai i ddarparu cyflogaeth leol a dathlu crefftau traddodiadol lleol.<br><br>Yn y gorffennol, dylunio tecstilau oedd un o'r diwydiannau mwyaf anfoesegol, a llygredig. Mae hyn yn newid. Caiff dysgwyr gyfle i gymryd rhan wrth arwain y newid hwnnw i'r dyfodol. Mae Cymru yn cynnig sawl cyfle llawn ysbrydoliaeth i wneud hyn, felly'n mae'n amser da i alluogi dysgwyr Cymraeg i fanteisio ar hyn.<br><br>***Enghraifft o waith Celf, Crefft a Dylunio:***<br>Dylai meddu ar agwedd gynaliadwy mewn Celf, Crefft a Dylunio ddylanwadu ar y ffordd y mae dysgwyr yn troi at eu projectau a'u hannog i fod yn ystyriol o'r penderfyniadau a wneir ganddynt. Dylent:<br>• Gyfyngu ar ddatblygu sgiliau ymarferol gan ddefnyddio'r defnyddiau sydd eu angen i fynd â gwaith i'r cam nesaf – osgoi arbrofi a gwastraffu defnyddiau er mwyn gwastraffu<br>• Ystyried y defnyddiau maent yn eu defnyddio, ac archwilio a allant gymhwyso methodolegau cynaliadwy iddo (h.y.: ailddefnyddio, ailgylchu, adennill). |
| | 1.2.2 | *Dylai datblygu a mireinio sgiliau ymarferol ystyried yr angen i greu gwaith pwrpasol.* | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Gall athrawon annog dysgwyr i archwilio crefftau cynaliadwy a all ffurfio dyfodol dysgwyr. Gwneuthurwyr o Gymru yw pobl fel Colette Davies a Sasha Kingston sy'n defnyddio defnyddiau cynaliadwy i greu gwaith celf, crefft a dylunio prydferth.<br><br>***Enghraifft o Ddyluniad 3D:***<br>Yn yr un modd â meysydd celf a dylunio eraill, bu rhywfaint o hanes o wastraff mewn ymarfer Dylunio 3D, defnydd anghyfrifol o ddefnyddiau a thueddiadau tymor byr. Mae hyn wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf i sefydliadau fel Practical Action, dylunwyr fel Thomas Heatherwick a phenseiri sy'n cynnwys Francis Kéré.<br><br>Mae'n bwysig annog dysgwyr i feddu ar ddull cynaliadwy o ddefnyddio defnyddiau mewn Dyluniad 3D. Wrth ddatblygu eu dyluniadau, dylent wneud y canlynol<br>• Mynd i'r afael â'r Chwe Egwyddor – lleihau, ailddefnyddio, ailgylchu, atgyweirio, ailystyried a gwrthod – yn yr holl waith maent yn ei greu.<br>• Ystyried cylch bywyd eu cynhyrchion – sut mae cael gafael ar ddefnyddiau, sut mae'n cael ei ddefnyddio, a yw'n dibynnu ar egni diangen, a oes modd ei atgyweirio neu ddatgymalu neu ailgylchu (os oes rhaid).<br><br>Wrth wneud eu dyluniadau yn greadigol, dylai dysgwyr wneud y canlynol<br>• Defnyddio defnyddiau wedi'u hailgylchu ble bynnag y bo'n bosibl, neu ddefnyddiau o ffynonellau cynaliadwy fel: eco-craft a kitronik.<br>• Defnyddio technoleg CAD i helpu i greu canlyniadau dylunio lle y bo'n berthnasol, megis Sketch Up neu Tinkercad. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 1.2.7 | *Cyfleu bwriadau creadigol i gynulleidfa mewn ffordd gynaliadwy* | • Osgoi'r defnydd o brintio digidol fel torri laser neu brintio 3D nes bod y cydrannau yn y camau datblygu diweddarach drwy ddefnyddio papur datblygu cynnar a modelau o gardiau.<br><br>***Enghraifft o Gyfathrebiad Graffig:***<br>Wrth gyflwyno gwaith i gynulleidfa (sy'n cynnwys asesu), dylid annog dysgwyr i wneud y canlynol:<br>• Dylunio cynlluniau i sicrhau cyn lleied o ddarnau o bapur neu fwrdd â phosibl.<br>• Wrth ddylunio deunyddiau pecynnu, archwilio sut y mae modd gwneud hyn mewn ffordd amgylcheddol gyfrifol.<br>• Trafod inciau modern, seiliedig ar VOC isel ac addysgu dysgwyr pam y mae hyn yn bwysig<br>• Ystyried defnyddio arddangosiadau digidol fel llechi neu sgriniau i osgoi printio gormodol.<br>• Adfyfyrio ar faint y gwaith i'w arddangos – mae modd defnyddio modelau neu maquettes fel dewis arall<br>• Mynd i'r afael â beth fydd neu beth fyddai'n digwydd i'r deunyddiau a'r cyfarpar mewn arddangosfa real neu ddychmygus, i sicrhau cyn lleied o wastraff â phosibl.<br><br>Gellir dod o hyd i ffynonellau gwybodaeth defnyddiol:<br>Creative Review<br>Design Week<br>Gŵyl Ddylunio Llundain<br><br>***Enghraifft o Ffotograffiaeth:***<br>Mae ffotograffiaeth yn dibynnu ar drosglwyddo delwedd seiliedig ar olau dau ddimensiwn ar bapur drwy ddefnyddio cemegion a phrosesau cemegol sy'n enwog am fod yn wenwynig. Mae llawer o waith ymchwil wedi'i wneud i arferion ystafell dywyll cynaliadwy a dylai athrawon ystyried integreiddio'r rhain i'w gweithdai sylfaen. Gallai dysgwyr gael eu cyflwyno i dechnegau fel datblygu ffilm gyda choffi a chrisialau |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

<table>
<tr><td></td><td></td><td></td><td>o soda a phrintiau cloroffyl ymhlith llawer o dechnegau ffotograffig eraill. Mae rhagor o ffynonellau gwybodaeth i'w canfod yma:<br>• https://sustainabledarkroom.com/<br>• https://www.hannahfletcher.com/.</td></tr>
<tr><td rowspan="3">Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb</td><td colspan="3">Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb mewn TGAU Celf a Dylunio. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr oherwydd mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn effeithio ar bob un ohonom a dylai pob dysgwr achub ar y cyfle i archwilio o'r materion a godwyd drwy eu harferion celf a dylunio. Mae gan Celf a Dylunio hanes hir o ddefnyddio iaith weledol i hyrwyddo trafod a gall alluogi dysgwyr i archwilio syniadau a chysyniadau yn ddiogel.<br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut y gellid ymgorffori Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn yr addysgu a dysgu:</td></tr>
<tr><td>Cyfeirnod y Fanyleb</td><td>Ymhelaethiad</td><td>Enghraifft</td></tr>
<tr><td>1.1.2</td><td>Sut mae dylanwadau celf, crefft a dylunio yn cyflwyno diwylliannau a chymdeithasau</td><td>Enghraifft o Gelfyddyd Gain:<br>Er na chaiff addysg cydberthynas a rhywioldeb ei haddysgu'n amlwg mewn celf a dylunio, nid oes amheuaeth fod deinameg cydberthnasau o bob math wedi bod yn destun sawl darn o waith yn ystod hanes celfyddyd gain, a ffotograffiaeth yn benodol. Er bod ambell un o'r darnau gwaith hyn yn anaddas i'r maes llafur TGAU ymdrin â nhw, mae llawer o arlunwyr a dylunwyr hanesyddol a chyfoes wedi llwyddo i archwilio natur cydberthnasau amrywiol a materion yn ymwneud â rhywioldeb a rhywedd.<br><br>Roedd menywod a dynion yn denu sylw'r arlunydd o Gymru Gwen John. Peintiodd fenywod a oedd yn annibynnol ac yn addysgedig. Cafodd gydberthynas hefyd â'r cerflunydd Ffrengig Rodin. Er nad yw ei gwaith ei hun yn disgrifio unrhyw gydberthynas, byddai ymchwilio i'w bywyd a'u gwaith yn cynnig man cychwyn cyfoethog i ddysgwyr archwilio a thrafod a gafodd ei chydberthnasau unrhyw ddylanwad ar y gwaith a grëwyd ganddi.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Gallai cymharu â'r arlunydd Mecsicanaidd Frida Kahlo, y mae ei hymagwedd ryddfrydig at rywioldeb a rhywedd wedi'i dogfennu'n dda, gynnig cipolwg i'r gwahaniaethau rhwng un genhedlaeth o ferched sy'n arlunwyr, yn ogystal â'r gwahaniaethau diwylliannol rhwng America Ladin ac Ewrop yn gynnar yn yr ugeinfed ganrif.<br><br>***Enghraifft o Gyfathrebiad Graffig:***<br>Bu gan ddylunio graffig rôl bwysig i'w chwarae wrth chwalu'r stigma yn ymwneud ag iechyd rhywiol ers yr 1980au pan greodd ymgyrch 'Don't Die of Ignorance' bosteri a fideos yn rhybuddio'r cyhoedd ynghylch yr argyfwng iechyd HIV/AIDS oedd yn dod i'r amlwg.<br><br>Gellir gofyn i ddysgwyr ddylunio ymgyrch diogelwch y cyhoedd i godi ymwybyddiaeth o'r mater o roi Cydsyniad i bobl iau yn eu harddegau, gyda'r nod o hyrwyddo cydberthnasau iach i bobl ifanc.<br>Cymorth i Ferched Cymru – Cydberthnasau Iach |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Addysg Hawliau Dynol ac Amrywiaeth mewn TGAU Celf a Dylunio. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i Ddysgwyr oherwydd mae gan yr holl ddysgwyr hawl i gymdeithas deg ac mae gan ddysgwyr mewn Celf a Dylunio sgiliau a all helpu i ddarlledu'r neges honno i gymdeithas gyfan.**<br><br>**Isod mae rhai enghreifftiau o sut y gellid ymgorffori Addysg Hawliau Dynol ac Amrywiaeth yn yr addysgu a dysgu:** | | |
| | ***Cyfeirnod y Fanyleb*** | ***Ymhelaethiad*** | ***Enghraifft*** |
| Addysg Hawliau Dynol ac Amrywiaeth | 1.1.2 | *Sut mae celf, crefft a dylunio o amrywiaeth o ddiwylliannau, cymdeithasau a chyfnodau amrywiol yn dylanwadu ar ddiwylliannau a chymdeithasau presennol* | ***Enghraifft o Gyfathrebiad Graffig:***<br>Mae modd defnyddio Celf a Dylunio i drafod a hyrwyddo Hawliau Dynol, er mwyn helpu i sicrhau bod pob un ohonom yn byw mewn cymdeithas decach. Mae llawer o gyfathrebwyr graffig wedi dylunio defnyddiau i gefnogi ymgyrchoedd, a hynny'n aml gan y llywodraeth, yn llwyddiannus.<br><br>Gallai dysgwyr ystyried yr hyn y mae Hawliau Dynol yng Nghymru yn ei olygu a dylunio deunyddiau cyfathrebu i'w dosbarthu mewn ysgolion. Er mwyn helpu i'w hysbrydoli, gallent edrych ar waith y canlynol:<br>• Frank Duffy: a ddyluniodd ddefnydd ar gyfer arddangosfa ‘At Blant Y Byd’.<br>• Shepard Fairey: sy'n creu posteri fel gweithredwr a dyngarwr yn UDA.<br>• Fons Hickman: a greodd gyfathrebiadau graffig ar gyfer Amnest Rhyngwladol yn y gorffennol.<br><br>***Enghraifft o Ffotograffiaeth:***<br>Trwy ryfel, dogfen neu hyd yn oed ffotograffiaeth ar y stryd, mae codi ymwybyddiaeth o hawliau dynol wedi dod yn hollbwysig i lawer o ffotograffwyr ac mae delweddau sy'n newid hanes wedi ffurfio digwyddiadau'r byd. Gallai dysgwyr archwilio gwaith ffotograffwyr eraill mewn ymateb i Hawliau Dynol ac Amrywiaeth, gan gynnig cyfleoedd ar gyfer rhywfaint o feddwl |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | beirniadol gyda chymorth athrawon drwy werthuso gwaith pobl eraill.<br><br>Gallai dysgwyr gael eu cyflwyno i'r gwaith sy'n cael ei ddangos gan y Cenhedloedd Unedig sy'n ymateb i gystadleuaeth: 4-humanity-2023 neu Photos from the Civil Rights Movement ar Google Arts and Culture: photos from the civil rights movement neu broject Through Our Eyes: through-our-eyes-project sy'n dangos cynrychiolaeth gadarnhaol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yng Nghymru a chanddynt. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

<table>
<tr><td rowspan="2">Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith</td><td colspan="3">Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Byd Gwaith mewn TGAU Celf a Dylunio. Mae'r cyfleoedd hyn bwysig i Ddysgwyr oherwydd mae'n bwysig datblygu sgiliau a fydd yn cyfrannu at gyflawni gyrfa bersonol, yn ogystal ag i gymdeithas gyfan. Ceir amgyffrediad nad oes gan bwnc Celf a Dylunio ragolygon gyrfa da. Mewn gwirionedd, mae'r gyrfaoedd yn eang ac yn amrywiol ac mae'r diwydiannau creadigol yn cyfrannu'n aruthrol i lwyddiant economaidd Cymru a'r DU.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut y gellid ymgorffori CWRE yn yr addysgu a dysgu:</td></tr>
<tr><td>Cyfeirnod y Fanyleb<br><br>1.2.7</td><td>Ymhelaethiad<br><br>Datblygu bwriadau creadigol a'u cyfleu i gynulleidfa drwy gyflwyniad effeithiol a phriodol.</td><td>Enghraifft<br><br>Enghraifft o Ddyluniad 3D:<br>Efallai mai hwn yw un o'r llwybrau amlycaf i yrfa drwy gelf a dylunio, mae dylunio 3D yn cwmpasu astudiaethau tuag at lwyddiant posibl yn y meysydd canlynol:<br>• Saernïaeth<br>• Dylunio dodrefn<br>• Dylunio cynnyrch<br>• Dylunio Theatr<br>• Creu propiau a modelau ar gyfer animeiddio a ffilm<br>• Dylunio cerbydau<br>• Dylunio mewnol<br>• Dylunydd goleuo<br>• Dylunio gemwaith<br>• Peirianneg tecstilau<br>• Dylunydd UX.<br><br>Gwneir y posibiliadau hyn yn bosibl drwy sgiliau meddylfryd dylunio a ddatblygwyd i ddechrau drwy fodloni pob un o'r Amcanion Asesu mewn Celf a Dylunio. Yr un gofynion hyn: datblygu syniadau, mireinio ac archwilio'r syniadau hyn, adfyfyrio ar waith a chyflwyno ymateb ystyrlon i friff penodedig yw'r union rai sy'n ofynnol mewn ymarfer dylunio proffesiynol. Bydd y gallu i ymateb i'r broses ddylunio hon yn gynnar yn rhoi'r dysgwr mewn sefyllfa dda wrth edrych ar opsiynau gyrfa i'r</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | dyfodol yn y diwydiant dylunio. Mae'r dudalen ganlynol o ymgynghoriaeth dylunio ryngwladol IDEO yn nodi beth mae hyn yn ei olygu: meddylfryd dylunio.<br><br>***Enghraifft o Gelfyddyd Gain:***<br>Mae'r sgiliau sydd ynghlwm â datblygu ymateb i fan cychwyn dethol neu benodedig, ymchwilio i hyn drwy ffynonellau sylfaenol ble bynnag y bo'n bosibl, archwilio ffyrdd gwahanol o gyflawni canlyniad, adfyfyrio ar waith wrth iddo gael ei ddatblygu ac, yn olaf, cynhyrchu canlyniad o ansawdd uchel ac o fewn amserlen benodedig, yn gwbl berthnasol i yrfaoedd annibynnol a phroffesiynol o bob math. Ychydig bynciau sy'n rhoi cyfle i'r dysgwyr ddatblygu'r sgiliau hyn mor uniongyrchol, ond mae'n rhaid i ddysgwyr mewn Celfyddyd Gain ddatblygu eu canlyniadau heb gyfarwyddyd eu hathrawon ac, yn yr achosion gorau, datblygu syniadau a all fod yn gwbl arloesol. Mae hyn yn ddefnyddiol ym mhob maes academia, yn ogystal ag mewn ymarfer proffesiynol.<br><br>Mae fideo'n cael ei gynhyrchu gan Tate, sy'n nodi bod astudio celf yn creu cysylltiadau rhwng meysydd athronyddol fel hanes, gwleidyddiaeth a chelf. Mae'n esbonio bod y gallu i ganfod rhywbeth ynoch eich hun i fynegi'n greadigol i'r byd yn unigryw i faes celf a dylunio. Yn ogystal, mae meddwl beirniadol yn ofyniad sylfaenol i resymu soffistigedig sy'n ofynnol i ddatblygu meddylfryd arloesol. As John Ruskin is quoted at the end of the film, ‘Art shows us what it is to be human’. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

<table>
<tr><th colspan="4">Sgiliau trawsgwricwlaidd – Llythrennedd</th></tr>
<tr><td rowspan="3">Gwrando</td><td colspan="3">Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Llythrennedd mewn TGAU Celf a Dylunio. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i Ddysgwyr oherwydd mae celf a llenyddiaeth wedi'u cysylltu â'i gilydd, gan ein galluogi ni fel bodau dynol i ddeall y byd o'n cwmpas a'n profiadau ynddo.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut y gellid ymgorffori Llythrennedd yn yr addysgu a dysgu:</td></tr>
<tr><td>Cyfeirnod y Fanyleb</td><td>Ymhelaethiad</td><td>Enghraifft</td></tr>
<tr><td>1.1.3</td><td>Deall sut mae ystyr yn cael ei gyfleu drwy ystod eang o waith creadigol a sut mae'n cael dylanwad ar eu bwriadau creadigol a'u gwaith nhw eu hunain</td><td>Un ffordd wych o ddysgu am arlunwyr a dylunwyr eraill a'r ffordd maent yn gweithio yw gwrando arnynt a'i thrafod. Pan fydd dysgwyr yn gwrando ar arlunwyr a dylunwyr eraill yn esbonio'u gwaith a'u technegau, daw eu huniongyrchedd â'r gwaith yn fyw ac mae'n ysbrydoli dysgwyr i brofi'r ddamcaniaeth o ran yr hyn maent wedi gwrando arno.<br><br>Mae hefyd yn cynnig mewnwelediad dyfnach i ddysgwyr o waith arlunwyr a dylunwyr eraill gan eu bod yn gallu clywed o lygad y ffynnon pa brofiadau a gawsant i'w galluogi i wneud eu gwaith, meithrin dealltwriaeth o'r mynegiant a'r emosiynau sydd ynghlwm.<br><br>Enghraifft o Gelfyddyd Gain:<br>Gallai dysgwyr wrando ar y cyfweliadau canlynol; Yr arlunydd o Gymru Mike Jones, sy'n dweud: “Mewn darlunio a pheintio, rwy'n ymdrechu i roi ffurf barhaol i emosiynau, syniadau ac atgofion. Rwy'n cael ysbrydoliaeth o destunau syml, menywod yn sgrwbio grisiau, ffigurau'n eistedd mewn ystafelloedd aros, dynion a menywod, lleoedd ac amseroedd fy mhlentyndod a'm dychymyg. Drwy fy ngwaith celf, rwy'n ceisio cyfleu emosiwn ac agwedd ac rwy'n gobeithio y bydd yn creu cyswllt â'r gwyliwr.”</td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Yn ogystal, gallai dysgwyr wrando ar Lubaina Himid yn trafod ei gwaith yn archwilio cynrychiolaeth o bobl dduon mewn gwaith celf a sut mae ei chefndir yn effeithio ar ei gwaith:<br><br>***Enghraifft o Ddyluniad 3D:***<br>Gwrando ar bensaer/dylunydd yn trafod ei waith – mae'r pensaer o Gymru Keith Griffiths, a sefydlodd y cwmni pensaernïol rhyngwladol Aedas, yn trafod grym braslunio mewn pensaernïaeth.<br><br>Ar y llaw arall, gallai dysgwyr sydd â diddordeb mewn dylunio dodrefn, wrando ar Tom Dixon (Space, Habitat, Design Research Studio) yn trafod pam y daeth yn ddylunydd. |
| Darllen | ***Cyfeirnod y Fanyleb***<br><br>1.2.1 | ***Ymhelaethiad***<br><br>*Datblygu ac ymchwilio, gan ddefnyddio sgiliau archwilio a dadansoddi i gefnogi chwilfrydedd ymchwiliol parhaus* | ***Enghraifft***<br><br>Fel gyda phob maes Dysgu a Phrofiad, mae darllen yn ganolog i'r ffordd y mae dysgwyr yn ennill gwybodaeth, gan annog dysgwyr i fod yn chwilfrydig ac yn archwiliadol. Mae'n helpu dysgwyr i greu cysylltiadau rhwng genres a meysydd ymchwil o ddiddordeb personol.<br><br>Nid oes rhaid i ddarllen ddigwydd drwy lyfrau yn unig – mae gan y rhyngrwyd amrywiaeth o gylchgronau a chyfnodolion ar-lein sy'n llawn ysbrydoliaeth ac, oherwydd eu natur, yn gwbl gyfoes. Mae safleoedd fel Colossal yn cynnig ysbrydoliaeth ar draws y disgyblaethau Celf a Dylunio ac maent yn werth ymweliad cyfnodol i weld y cynnwys wedi'i ddiweddaru.<br><br>***Enghraifft o Ddylunio Tecstilau:***<br>Mae llyfrau a chylchgronau gwych ar gael sy'n ymdrin â'r llwybr hwn, mae rhai wedi'u rhestru yma:<br>Selvedge Magazine<br>Jen Jones, Welsh Quilts: |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Rosie James, 'Stitch Draw'<br>Ekta Kaul, Kantha<br>Cas Holmes, Stitch Stories.<br><br>***Enghraifft o Gelf, Crefft a Dylunio:***<br>Mae'r Cyngor Crefft yn cynhyrchu cylchgrawn misol gwych, y mae rhai ysgolion yn tanysgrifio iddo.  Mae crynodeb ohono ar ei wefan.<br>David Moore: Art for Wales – The Legacy of Derek Williams.<br>Ai Weiwei, 40fed Rhifyn.<br>Rosalie Kim, Hallyu!: The Korean Wave. |
| Siarad | ***Cyfeirnod y Fanyleb***<br><br>1.2.7 | ***Ymhelaethiad***<br><br>*Ystyried eu bwriadau creadigol eu hunain a sut i'w cyfleu i gynulleidfa drwy gyflwyniad effeithiol a phriodol* | ***Enghraifft***<br><br>Wrth gyflwyno gwaith fel arlunydd neu ddylunydd, mae'n bwysig defnyddio iaith yn ofalus i gyfleu syniadau heb amwysedd.  Gwelir hyn yn ysgrifenedig (isod) fel anodiad, ac yn y geiriau llafar wrth gyflwyno gwaith i gynulleidfa.<br><br>***Enghraifft o bob Llwybr:***<br>Er mwyn helpu dysgwyr i ddeall yr Amcanion Asesu, gall fod yn ddefnyddiol annog dysgwyr i gyflwyno'u gwaith yn weledol ac yn eiriol drwy ddangos yr hyn maent yn gweithio arno ar ffurf 'crit'. Gall hyn ddigwydd yn ystod camau cynnar y cwrs er mwyn i ddysgwyr allu cael adborth a gweithredu arno. Drwy feithrin dealltwriaeth o'r adborth llafar gan athrawon a chymheiriaid, gall dysgwyr ddatblygu gwybodaeth am yr hyn sy'n ofynnol i gyrraedd yr amcanion asesu a'r iaith ynddynt yn gyflym. Er mwyn annog dysgwyr i fanteisio ar hyn, dylid nodi y dylai'r adborth barhau i fod yn gadarnhaol, a dylai'r athro greu canllawiau i sicrhau bod y profiad dysgu hwn yn un adeiladol.<br><br>Dyma rai canllawiau defnyddiol ar Access Art sy'n cefnogi'r broses crit drwy broject cerflunwaith cyfoes. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | Cyfeirnod y Fanyleb | Ymhelaethiad | Enghraifft o bob llwybr: |
|---|---|---|---|
| Ysgrifennu | 1.1.4<br><br>1.2.8<br><br>1.2.10 | *Dadansoddi eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill yn feirniadol ac adfyfyrio arno*<br><br>*Adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain, ei fireinio a'i werthuso*<br><br>*Dadansoddi eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill yn feirniadol ac adfyfyrio arno a gwerthuso effeithiolrwydd prosesau a chanlyniadau gwaith creadigol* | Er mwyn i ddysgwyr allu cyrraedd Amcan Asesu 1, lle mae angen iddynt ddangos bod ganddynt ddealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol o'u ffynonellau, mae angen i ddysgwyr ddangos eu bod wedi gwneud gwaith ymchwil a'u bod yn ymwybodol o fwriadau'r arlunydd neu'r dylunydd, ei dechnegau a llwyddiant perthynol ei ganlyniadau. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy ysgrifennu a rhaid iddo fod yng ngeiriau'r dysgwyr eu hunain – os byddant yn copïo gwybodaeth air am air o wefannau, yn enwedig lle y caiff ei chyflwyno fel ymchwil, bydd angen gwneud dysgwyr yn ymwybodol na fydd unrhyw farciau yn cael eu rhoi lle byddant yn ceisio cyflwyno'r gwaith hwnnw fel eu gwaith eu hunain.<br><br>Yn gyffredinol, nid yw gwybodaeth fywgraffyddol ei hun yn ddigon a lle ystyrir ei bod yn berthnasol, dylid ei gwau drwy waith ysgrifenedig y dysgwyr am waith yr arlunydd.<br><br>Er mwyn cyrraedd yr holl Amcanion Asesu yn llwyddiannus, mae'n bwysig defnyddio anodi i gefnogi gwaith llyfr braslunio/paratoadol. Bydd cyfleoedd i ddatblygu sgiliau ysgrifennu i'w gweld yma. Nid oes rhaid i'r gwaith ysgrifennu fod ar ffurf traethawd – gall nodiadau a grëwyd ‘yn y foment’ feddu ar gymaint o rwyddineb â pharagraffau a ysgrifennwyd yn ôl-weithredol. Disgwylir i'r math hwn o fyfyrdod fod yn amlwg yn AA1, AA2 ac AA3.<br><br>Mae gan BBC Bitesize[4] rai tudalennau defnyddiol a ddylai gynnig rhagor o arweiniad i ddysgwyr yn y maes hwn. |

[4] Mae gan BBC Bitesize adnoddau Eduqas i'w defnyddio, ond byddwch yn ymwybodol bod gwahaniaethau rhwng manylebau.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Wrth gloi canlyniad terfynol Unedau 1 a 2, disgwylir y bydd dysgwyr yn creu gwerthusiad o'u gwaith. Bydd hyn yn cwmpasu'r gwaith o baratoi a'r gwaith braslunio, sut mae'r dysgwr wedi troi at ei broject, a yw'r technegau a ddefnyddiwyd ganddo yn briodol ac yn llwyddiannus ai peidio ac, yn olaf, ansawdd y canlyniad gorffenedig. |
| **Sgiliau trawsgwricwlaidd – Rhifedd** | | | |
| | **Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Rhifedd mewn TGAU Celf a Dylunio. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i Ddysgwyr oherwydd mae rhifau wrth wraidd y ffordd rydym yn dehongli ac yn cyfathrebu'r byd rydym yn byw ynddo ac i'n galluogi ni i wneud synnwyr o ffenomena sy'n digwydd yn naturiol er mwyn i ni allu ei gynrychioli mewn ffordd weledol.**<br><br>**Isod mae rhai enghreifftiau o sut y gellid ymgorffori Rhifedd yn yr addysgu a dysgu:** | | |
| | ***Cyfeirnod y Fanyleb*** | ***Ymhelaethiad*** | ***Enghraifft o bob llwybr*** |
| Datblygu hyfedredd mathemategol | 1.2.2 | *Datblygu a mireinio sgiliau ymarferol a thechnegol* | Drwy waith celf a dylunio, caiff y defnydd o sgiliau mathemategol ymarferol ei ddiystyru yn aml ac weithiau caiff ei gymryd yn ganiataol. Maint y papur a'i gyfeiriadaeth a'r gydberthynas â'r gwaith arno, y gyfran ystyriol o fewn cyfansoddiad (h.y.: rheol traeanau/y gymhareb euraidd) a'r safbwynt, y broses o fesur ymyl o gwmpas gwaith arddangosfa. Mae'r cysyniadau mathemategol canlynol yn digwydd yn aml:<br>• Cymesuredd<br>• Patrwm<br>• Persbectif<br>• Cyfrannedd<br>• Graddfa<br>• Siâp a ffurf<br>• Geometreg ac onglau<br>• Ffractalau. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Mae'n bwysig dangos i ddysgwyr eu bod yn defnyddio sgiliau ac adnoddau mathemategol yn gyson ym maes celf a dylunio. Ceir camsyniad yn aml fod hyfedredd mewn mathemateg a chelf yn gydanghynhwysol. Nid yw hyn o gymorth i'r dysgwr na'r testun a dylid ei herio.<br><br>Mae rhai arlunwyr a dylunwyr yn cael eu cysylltu'n benodol â mathemateg:<br>• Leonardo da Vinci<br>• MC Escher<br>• Pablo Picasso (a'r Ciwbwyr)<br>• Giorgio de Chirico<br>• Salvador Dali<br>• Rene Magritte<br>• Bridget Riley<br>• Zaha Hadid (a phob pensaer).<br><br>Mae'r fideo canlynol yn dangos hyn: Mathemateg mewn Celf. |
| Mae deall y system rifau yn ein helpu ni i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau | ***Cyfeirnod y Fanyleb***<br><br>1.1.2 | ***Ymhelaethiad***<br><br>*Mae celf, crefft a dylunio o amrywiaeth o ddiwylliannau, cymdeithasau a chyfnodau amrywiol yn dylanwadu ar ddiwylliannau a chymdeithasau presennol* | ***Enghraifft***<br><br>***Enghraifft o Ddylunio Tecstilau:***<br>Drwy astudio dylunio Islamaidd, bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth fathemategol o ailadrodd patrymau, defnyddio gridiau a phren mesur a set o gwmpawdau. Gellir addysgu hyn mewn amrywiaeth eang o lefelau, gan ddechrau gyda lliwio patrymau wedi'u dylunio ymlaen llaw, i saernïo cynlluniau dylunio Islamaidd. Bydd hyd yn oed yr ymarfer lliwio yn datblygu dealltwriaeth gyflym o ailadrodd patrymau geometregol, os bydd yn cael ei wneud yn ofalus.<br><br>Y defnydd amlycaf ar gyfer hyn yw ailadrodd patrymau arwyneb, efallai trwy brintio sgriniau neu drwy ddulliau ailadrodd eraill. Gallai hyn arwain at feithrin dealltwriaeth o |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | wahanol fathau o brosesau ailadrodd patrymau a'r geometregau sydd ynghlwm. Mae BBC bitesize[5] yn darparu canllaw adolygu ar gyfer patrymau mewn celf a dylunio. Yn ogystal, dyma enghraifft o ailadrodd patrymau printio.<br><br>***Enghraifft o Gelfyddyd Gain:***<br>Mae cymesuredd wedi chwarae rôl hanfodol ac weithiau cysegredig mewn peintio a cherflunwaith ar hyd hanes celfyddyd. Mae beddau a sarcophagi yr hen Eifftiaid, peintiadau Canoloesol o straeon y Beibl (weithiau fel triptychau), ffurfiau cerfluniol Barbara Hepworth, peintiadau 'sip' Barnett Newman (sy'n gofyn cwestiynau am gydbwysedd peintiadau) i beintiadau caleidosgopaidd Damien Hirst, yn defnyddio cymesuredd fel fformiwla ar gyfer cyfansoddi.<br><br>Mae'n ddefnyddiol ystyried beth mae cymesuredd yn ei olygu drwy ei archwilio mewn celf a dylunio gan ei fod yn bresennol ym mhob maes. Mewn Celfyddyd Gain, dylid ystyried sut mae cymesuredd yn effeithio ar gyfansoddiad, cydbwysedd a sut y gellir ei drafod i greu tensiwn a diddordeb mewn gwaith.<br><br>Yn yr un modd, gellir archwilio gwahanol fathau o gymesuredd ac anghymesuredd:<br>• Adfyfyriol<br>• Cylchdro/rheiddiol<br>• Trosiannol (yn gysylltiedig â phatrwm)<br>• Gwrthdroëdig<br>• Dwyechelinol.<br><br>Mae'r canllaw adolygu canlynol gan BBC Bitesize[6] yn archwilio cymesuredd a chydbwysedd mewn celf a dylunio. |

[5] Mae gan BBC Bitesize adnoddau Eduqas i'w defnyddio, ond byddwch yn ymwybodol bod gwahaniaethau rhwng manylebau.
[6] Mae gan BBC Bitesize adnoddau Eduqas i'w defnyddio, ond byddwch yn ymwybodol bod gwahaniaethau rhwng manylebau.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | *Cyfeirnod y Fanyleb* | *Ymhelaethiad* | *Enghraifft* |
|---|---|---|---|
| Mae dysgu am geometreg yn ein helpu i ddeall siapiau, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli yn y byd go iawn | 1.2.3 | *Defnyddio ac addasu sgiliau lluniadu ar gyfer gwahanol anghenion a phwrpasau* | ***Enghraifft o Ddyluniad 3D:***<br>O fewn y llwybr Dyluniad 3D (ond nid yn y llwybr hwnnw yn unig) gall defnyddio lluniadu geometrig ac orthograffig ddangos lefel uchel o sgìl a dylid ei annog. Mae'r mathau canlynol o luniadu yn defnyddio geometreg i helpu i ddeall syniadau dylunio – ar ffurf brasluniau i'r dysgwr ei hun ac ar ffurf cyflwyniad i'r gynulleidfa fwriadedig. Gallant gael eu creu â llaw, neu drwy ddefnyddio Dylunio drwy Gymorth Cyfrifiadur (CAD).<br>• Isometrig<br>• Acsonometrig<br>• Planometrig<br>• Persbectif<br>• Tafluniad ongl gyntaf neu drydedd ongl.<br><br>Ni ragwelir y byddai'r holl ddulliau hyn yn cael eu defnyddio, ac nid oes rheidrwydd y bydd unrhyw un ohonynt yn cael eu defnyddio.<br><br>Er mwyn ategu a chynorthwyo hyn, dylai'r dysgwr allu dangos ei fod yn deall y cysyniad o 'raddfa', boed hynny drwy luniadu neu drwy greu modelau, gan ddefnyddio graddfeydd priodol o 1:2 ar gyfer h.y. syniadau manylion adeiladu ar gyfer dodrefn trwyddo i 1:100 ar gyfer cysyniadau pensaernïol mawr.<br>***Enghraifft o Gelfyddyd Gain:***<br>Mewn celfyddyd gain (a ffotograffiaeth), gan ddefnyddio persbectif i gynrychioli siapiau tri dimensiwn ar gynllun 2 ddimensiwn (papur, cynfas ac ati), mae techneg sy'n cael ei defnyddio i greu realaeth, darparu drama a gosod gwrthrychau a phobl mewn amgylchedd 'go iawn'. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Mae rheolau persbectif sy'n dilyn canllawiau geometrig, a all fod yn anodd eu cyflawni, ond gyda sgìl ac ymarfer, gall y rhain fod yn hylifol ac yn ddeinamig. Roedd arlunwyr fel de Chirico ac LS Lowry yn defnyddio persbectif yn wahanol iawn yn effeithiol dros ben.<br><br>Darperir 'Coursework Guide' gan Tate i gefnogi dysgwyr yn y maes hwn. |
| Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu i wneud casgliadau a phenderfyniadau ar sail gwybodaeth | ***Cyfeirnod y Fanyleb***<br><br>1.2.5 | ***Ymhelaethiad***<br><br>*Defnyddio meddwl creadigol wrth ddefnyddio offer, defnyddiau a thechnegau i greu, mireinio a chyflawni canlyniadau sy'n arddangos pwrpas a bwriad clir a dangos dealltwriaeth o iaith weledol* | ***Enghraifft***<br><br>***Enghraifft o Gyfathrebiad Graffig:***<br>Mae'r gallu i gyfathrebu gwybodaeth â phobl mewn ffordd glir a chryno yn sgìl mwyfwy pwysig mewn oes lle mae gwybodaeth yn cael ei gorlwytho. Mae gyrfaoedd newydd yn y maes hwn yn datblygu'n aml ac mae dylunio cyfathrebu yn ddewis gradd poblogaidd.<br>Mae'n bosibl y gwelwch gyfeiriadau at y gyrfaoedd canlynol:<br>• Dylunio gwybodaeth<br>• Rhithfodelu data<br>• Dylunio Profiad y Defnyddiwr<br>• Ffeithluniau<br>• Dylunio Profiad<br>• profiad defnyddiwr<br>• Dylunio llwybr.<br><br>Bydd dealltwriaeth gadarn o sut i ddehongli data ac ystadegau dilynol yn helpu i lywio dysgwyr ynghylch sut y gallant ddarparu gwybodaeth bwysig i negeseuon y mae modd eu gweld yn glir. Gall fod yn ddiddorol i ddysgwyr gael eu cyflwyno i hyn drwy'r 'Information is Beautiful' gweledol ysgogol sy'n creu diagramau prydferth i esbonio gwybodaeth neu ddefnyddio Infographic Guidelines y BBC. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ***Enghraifft o Ddyluniad 3D***<br>Defnyddir ystadegau ar hyd Dyluniad 3D er mwyn cael gwybodaeth i ddylunio cynnyrch neu adeilad yn briodol, ystyried gwybodaeth y defnyddiwr drwy ddehongli data anthropmetrig i ofynion ergonomig neu fesur poblogrwydd artiffactau neu effeithiolrwydd gyda defnyddwyr.<br><br>Gallai dysgwyr ddangos eu dealltwriaeth o ymchwil ystadegol ar gamau amrywiol projectau:<br>• Ymchwil i'r farchnad – darganfod beth sydd ei angen neu ei eisiau<br>• Gofyn i ddarpar ddefnyddwyr am eu gofynion<br>• Mesur a dadansoddi'r ffordd y mae defnyddwyr yn defnyddio cynhyrchion tebyg,<br>• Defnyddio data anthropometrig i sicrhau bod y cynnyrch, artiffact neu adeilad yn cael ei ddylunio'n ergonomig (i weddu i'r corff dynol)<br>• Asesu llwyddiant y cynnyrch, artiffact neu adeilad drwy fesur a phrofi.<br><br>Ar gyfer TGAU, gellir cyflawni hyn mewn ffordd elfennol – yr hyn sy'n bwysig yw bod dysgwyr (ac athrawon) yn cydnabod eu bod yn creu ateb dylunio (sy'n ymateb i ofyniad neu angen) yn hytrach nag ymateb llawn mynegiant neu reddfol. Dylai'r ddogfen archif hon gan CBAC helpu i egluro hyn. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

<table>
<tr><th colspan="4">Sgiliau Trawsgwricwlaidd – Cymhwysedd Digidol</th></tr>
<tr><td rowspan="3">Dinasyddiaeth</td><td colspan="3">Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Cymhwysedd Digidol mewn TGAU Celf a Dylunio. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i Ddysgwyr, oherwydd mewn byd mwyfwy digidol, mae angen i ni ddysgu defnyddio technoleg yn ddiogel er mwyn i ni allu rheoli ei phosibiliadau i wella'r byd rydym yn byw ynddo.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut y gellir ymgorffori Cymhwysedd Digidol yn yr addysgu a dysgu:</td></tr>
<tr><td>Cyfeirnod y Fanyleb</td><td>Ymhelaethiad</td><td>Enghraifft</td></tr>
<tr><td>1.2.9</td><td>Cydnabod sut y gall cynulleidfa ddehongli gwaith ac ymateb iddo</td><td>Enghraifft o Ddyluniad 3D:<br>Yn y paragraff blaenorol, gwnaethom edrych ar sut gwnaeth elfennau Dyluniad 3D ymateb i ffactorau dynol fel anghenion defnyddiwr ac ystyriaeth ergonomig. Mae effeithiau cymdeithasol y cynhyrchion/adeiladau/artiffactau yr un mor bwysig wrth ddatblygu atebion dyluniad 3D. Gallwn ddefnyddio technolegau digidol i'n helpu i wneud hyn.<br><br>Dylai dysgwyr gydnabod materion megis:<ul><li>Cynaliadwyedd, drwy allu asesu olion troed carbon</li><li>Cylch bywyd, gyda defnyddiau'n cael eu holrhain a'u monitro</li><li>Dyluniad cynhwysol, drwy ddefnyddio modelu CAD</li><li>Dylanwadau diwylliannol, gan ddefnyddio adnoddau cyfathrebu byd-eang</li><li>Gweithgynhyrchu cyfrifol gan ddefnyddio technoleg ddigidol i leihau gwastraff</li><li>Defnyddiau a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg i ddiogelu datblygiad cynhyrchion i'r dyfodol.</li></ul>Dylai dysgwyr ddangos eu bod wedi ystyried y materion hyn (ar lefel sylfaenol) yn eu gwaith paratoi. Dengys rhai adnoddau defnyddiol sy'n edrych ar gynaliadwyedd a dylunio cyfrifol isod – gofynnwch i ddysgwyr sut gallai ymateb digidol gefnogi'r</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | mentrau hyn i fynd hyd yn oed ymhellach:<br>Patagonia – Fair Trade – The First Step<br>Practical Action – The 6Rs<br>Design Museum – S'up Spoon:Design It, Make it, Use It.<br><br>***Enghraifft o waith Celf, Crefft a Dylunio:***<br><br>Mae'r llwybr hwn yn cynnig dull hyblyg iawn o ddysgu mewn Celf a Dylunio mewn modd digidol. Yma, gall dysgwyr elwa ar ystod o ddulliau yn ymwneud â'r ffordd y mae modd defnyddio Celf, Crefft a Dylunio i gyfathrebu â chynulleidfa er mwyn awgrymu ffyrdd o ddehongli ac ymateb i waith creadigol sy'n mynd i'r afael â'r byd rydym yn byw ynddo a'n cyfrifoldebau mewn cymdeithas.<br><br>Mae'r Academi Frenhinol yn darparu tudalen we ddefnyddiol sy'n ystyried sut mae arlunwyr a dylunwyr yn mynd i'r afael â materion mewn democratiaeth, fel protest, gwneud penderfyniadau a chydweithredu drwy edrych ar brosesau ethol Academyddion Brenhinol. Gall yr adnodd hwn gynnwys creu ateb dylunio i broblem a osodwyd, gan weithio mewn grwpiau bach.<br><br>Mae hwn yn faes datblygu cyfleoedd gyrfa arall ym maes Celf a Dylunio, lle mae dulliau arloesi a chreadigol o ddylunio yn cael eu defnyddio i edrych ar yr anghenion cymdeithasol ehangach cyfan, a hynny gan ddefnyddio dylunio profiad a grëwyd yn ddigidol i ystyried sut rydym yn defnyddio atebion newydd yn ein byd digidol. |

| | ***Cyfeirnod y Fanyleb*** | ***Ymhelaethiad*** | ***Enghraifft o Bob Llwybr:*** |
|---|---|---|---|
| Rhyngweithio a Chydweithio | 1.2.5 | *Defnyddio meddwl creadigol wrth ddefnyddio offer, defnyddiau a thechnegau i greu, mireinio a chyflawni canlyniadau sy'n arddangos pwrpas a bwriad clir a dangos dealltwriaeth o iaith weledol* | Dylai Celf a Dylunio yn yr ystafell ddosbarth feddu ar elfennau dull cydweithredol bob amser. Felly, er ei fod yn wir nad yw cydweithredu ei hun yn cael ei ganiatáu yn Uned 2, mae modd cyflawni cydweithrediad yn Uned 1.<br><br>Gallai hyn ddigwydd mewn project cydweithredol wedi'i osod yn ystod y cam meithrin sgiliau rhagarweiniol, lle mae dysgwyr yn cydweithio i greu ymateb i broject 'ysgol gyfan', fel cynhyrchiad ysgol, cystadleuaeth wedi'i gosod yn allanol, cyfle am waith celf yng nghymuned ysgol, gan weithio gydag ysgol gynradd leol. Gellir cyflawni llawer o'r gwaith hwn yn ddigidol, lle mae dysgwyr yn cyfathrebu drwy lwyfannau cydweithredol fel [Google Classroom] neu [Microsoft Teams]. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Gellir hefyd archwilio'r cyfleoedd i weithio ar draws llwybrau. Gan ddefnyddio cynhyrchiad ysgol fel enghraifft, gallai'r rhai sy'n dilyn y llwybr Celfyddyd Gain greu'r gefnlen, y Dylunwyr 3D y propiau, gallai Dylunwyr Tecstilau gefnogi'r gwaith o ddylunio a chreu'r gwisgoedd, gallai dysgwyr Cyfathrebiadau Graffig gynhyrchu'r deunyddiau marchnata a chyhoeddusrwydd, gallai Ffotograffwyr gofnodi a rhoi cyhoeddusrwydd, gallai dysgwyr sy'n dilyn y cwrs Celf, Crefft a Dylunio gymryd rhan mewn unrhyw un o'r disgyblaethau a grybwyllwyd. Gallai cynnydd gael ei olrhain a'i drafod ar-lein, dan reolaeth dysgwyr ac wedi'i adolygu gan athrawon.<br><br>Gall y cyfle i fod yn rhan o gymuned ehangach a chyfrannu at ddigwyddiad 'ysgol gyfan' helpu i greu clymau a meithrin ymdeimlad o gydlyniad yn y grŵp. Bydd yn galluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau cydweithio digidol newydd ac i ymfalchïo yn eu canlyniadau ar y cyd, yn ogystal â chreu atgofion a fydd yn para'n hwy na llawer o'u gwersi rheolaidd.<br><br>Os bydd y dull hwn yn cael ei gyflawni yn ystod Uned 1, **rhaid** i bob dysgwr gael ei assu am y cyfraniad **a wnaethant yn bersonol** a pheidio â chael eu hasesu fel rhan o'r grŵp cyfan.<br><br>**NI** chaniateir cydweithrediad o unrhyw fath yn Uned 2. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | Cyfeirnod y Fanyleb | Ymhelaethiad | Enghraifft |
|---|---|---|---|
| Cynhyrchu | 1.1.1<br><br>1.2.5<br><br>1.2.7 | *Dylai dysgwyr wybod a deall y broses greadigol drwy archwilio syniadau ac arbrofi gydag amrywiaeth o gyfryngau, technegau, offer, technolegau digidol, a phrosesau sy'n briodol i'w bwriadau unigol eu hunain*<br><br>*Dylai dysgwyr allu defnyddio meddwl creadigol wrth ddefnyddio offer, defnyddiau a thechnegau i greu, mireinio a chyflawni canlyniadau sy'n arddangos pwrpas a bwriad clir a dangos dealltwriaeth o iaith weledol*<br><br>*Dylai dysgwyr allu ystyried eu bwriadau creadigol eu hunain a sut i'w cyfleu i gynulleidfa drwy gyflwyno, arddangos a/neu rannu eu gwaith creadigol eu hunain yn effeithiol ac yn briodol* | ***Enghraifft o Ddylunio Tecstilau:***<br><br>Mae Dylunio Tecstilau mewn TGAU Celf a Dylunio yn cynnwys creu dyluniadau a chynhyrchion ar gyfer ffabrigau wedi'u gwehyddu, eu gwau, eu pwytho neu eu printio arwyneb ac mae gofyn cael dealltwriaeth o ffibrau, edafedd a ffabrigau. Gallai dysgwyr archwilio ffynonellau perthnasol, fel gwaith dylunwyr tecstilau cyfoes a gwneuthurwyr sy'n defnyddio CAD. Mae cyfoeth o arlunwyr a dylunwyr tecstilau ansawdd uchel yng Nghymru, er enghraifft, mae Urdd Gwneuthurwyr Cymru yn defnyddio CAD wrth ddatblygu eu gwaith dylunio neu weithgynhyrchu.<br><br>Er mwyn cefnogi'r cysylltiadau agos rhwng dulliau wedi'u hadeiladu, addurno, printio, gwnïo a'u llifo o ddylunio tecstilau, gallai projectau gael eu gosod i ymateb i friff penodedig. Gallai hyn alluogi ar gyfer hoelio sylw ar feysydd eraill dylunio tecstilau digidol ar wahân i ffasiwn (fel tecstilau addurnol, clustogwaith, rygiau a ffabrigau penodol).<br><br>Gallai un enghraifft o hyn gynnwys:<br>*'Mae gwesty dethol newydd yn agor a fydd yn darparu ar gyfer y rhai sy'n chwilio am dwristiaeth gynaliadwy. Awgrymu dewis o ffabrigau a fydd yn cydweithio â'i giydd, yn ogystal â darparu hunaniaeth adnabyddus i bob ardal yn y gwesty fel: derbynfa, bwyty, caffi/bar, ystafelloedd gwely. Ystyried tecstilau sy'n cael eu creu o ffynonellau lleol ac sydd felly'n adlewyrchu cynefin, gan hyrwyddo treftadaeth Cymru mewn ffordd newydd a modern. Gallai cyflwyniadau gael eu creu yn ddigidol, gyda samplau analog wedi'u hymgorffori.'* |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

Rhaid i ddysgwyr ddangos y gallu i weithio'n greadigol gyda phrosesau a thechnegau digidol gwahanol. Gallai hyn fod yn gymwys i'r canlynol: gwehyddu, printio arwyneb, creu a thorri patrymau, brodwaith (peiriant) a gwau.

***Enghraifft o Ffotograffiaeth:***
Ffotograffiaeth ar gyfer TGAU Celf a Dylunio yw'r arfer o greu delweddau drwy luniadu gyda golau. Gall hyn fod gyda chamera neu beidio ac, yn yr achos hwn, dylai gael ei gynhyrchu yn ddigidol.

Rhaid i ddysgwyr archwilio ffynonellau cyd-destunol perthnasol fel gwaith ffotograffwyr cyfoes neu ddulliau o greu delweddau seiliedig ar lens digidol. Mae ffotograffwyr o Gymru wedi cyfrannu'n aruthrol at ddatblygu'r genre traddodiadol, fel yr adnodd hwn a grëwyd gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru.
Sut gallai hyn gael ei ddiweddaru ar gyfer yr oes ddigidol?

Er mwyn i ddysgwyr allu deall y syniad o *gynhyrchu* canlyniad digidol, gallai briff gael ei osod iddynt y mae'n ofynnol iddynt ymateb iddo. Gallai un enghraifft o hyn gynnwys:
*‘Mae gwesty dethol newydd yn agor a fydd yn darparu ar gyfer y rhai sy'n chwilio am dwristiaeth gynaliadwy. Creu delweddau ansawdd uchel (rhai llonydd a/neu symudol) drwy'r dull digidol rydych yn ei ffafrio sy'n nodi hanfod yr amgylchedd.* Gallai'r delweddau gael eu defnyddio yn yr ymgyrch farchnata yn ymwneud â lansiad y gwesty er mwyn denu teithwyr ymwybodol o'r amgylchedd a chyfleu'r cynefin. *Gallai delweddau awgrymu naws ac arddull y gwesty, naill ai ar ffurf llun portreadol neu dirlun, du a gwyn neu liw, ongl lydan neu fanwl. Gallai delweddau ymddangos ar y we neu gael eu taflunio yn y gwesty fel delweddau fformat mawr.’*

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Rhaid i ddysgwyr ddangos y gallu i weithio'n greadigol gyda phrosesau a thechnegau digidol fel ffotograffiaeth treigl amser, fideo, montage ffotograffig a thrin delweddau digidol er mwyn dangos dealltwriaeth o greu creadigol mewn ymateb i gynhyrchu canlyniadau digidol a masnachol. |
| Data a Meddwl Cyfrifiannol | 1.2.9 | *Dylai dysgwyr allu cydnabod sut y gall cynulleidfa ddehongli gwaith ac ymateb iddo* | ***Enghraifft o Gyfathrebiadau Graffig:***<br><br>Rhan allweddol o ddatblygu sgiliau mewn Cyfathrebiadau Graffig yw dod o hyd i ffyrdd o gyfleu negeseuon i gynulleidfa, yn aml i'r cyhoedd. Mae'r gallu i ddatrys problemau yn allweddol yn y llwybr hwn a bydd angen i ddysgwyr ddeall y mater y mae angen iddynt ei gyfathrebu yn llawn. Yn aml, bydd hyn yn cynnwys cyfathrebu data cymhleth mewn ffordd sy'n gyfareddol ac yn digwydd ar unwaith. Yn aml, darperir y data hyn drwy graffau neu raddfeydd digidol a all fod yn anodd i'r cyhoedd eu gweld.<br><br>Bydd angen i ddysgwyr allu dehongli gosodiadau, tablau, siartiau, taenlenni a chronfeydd data sylfaenol er mwyn iddynt allu dylunio canlyniadau y mae modd eu deall yn haws. Gwnaethom gyfeirio'n gynharach at yr asiantaeth ddylunio 'Information is beautiful', byddai eu gwaith yn berthnasol yma. Ymhlith y dyfeisiau graffig pellach sy'n defnyddio data i gefnogi'r broses o ddarparu negeseuon graffig diddorol yw 'We are Dorothy' sy'n creu posteri wedi'u cymell yn fasnachol ar gyfer marchnadoedd arbenigol amrywiol. Mae eu cydweithrediad â Google Arts and Culture, 'Music, Makers, Machines' yn dangos sut y mae modd defnyddio cyfathrebiadau graffig i gefnogi meddwl cyfrifiannol ar gyfer cynulleidfaoedd penodol.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall pwysigrwydd gallu cyflawni'r wybodaeth hon sydd yn aml yn sych mewn ffordd apelgar i'r llygaid – ystyried gosod project yn seiliedig ar bwnc cyfredol. Cymerwch olwg ar Data Cymru i'ch helpu i ystyried rhai pynciau. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ***Enghraifft o Ddyluniad 3D:*** Mae defnyddio data i gefnogi'r gwaith o ddatblygu dyluniadau yn y diwydiannau pensaernïaeth, cynnyrch a dodrefn yn hanfodol i'w llwyddiant. Gallai dysgwyr elwa ar gyflwyno'r cysyniad hwn a dealltwriaeth sylfaenol o sut mae data'n cael eu defnyddio fel adnodd dylunio.<br><br>Gallai dysgwyr gael eu hannog i gasglu data anthropometrig a chreu cofnod i ddangos tystiolaeth i gefnogi'r penderfyniadau dylunio maent yn eu gwneud. Gallai hyn fod yn 'gyrhaeddiad' braich wrth ddylunio golau desg, diamedr arddyrnau wrth ddylunio gemwaith neu ofynion arbennig priodol wrth symud o gwmpas adeilad. Gan fod hwn yn faes ymchwil enfawr, ni ragwelir y byddai dysgwyr yn ymchwilio'n ddwfn iddo, ond gallai ddysgwyr ddangos eu bod yn deall bod data yn bwysig i ddatblygu cynhyrchion, a hynny drwy ddefnyddio graffiau neu ddiagramau. Un llyfr defnyddiol i gefnogi hyn mewn projectau pensaernïaeth yw'r 'New Metric Handbook'.<br><br>Gellir dod o hyd i gymorth ar gyfer y pwnc hwn ar BBC Bitesize[7]. |

[7] Mae gan BBC Bitesize adnoddau Eduqas i'w defnyddio, ond byddwch yn ymwybodol bod gwahaniaethau rhwng manylebau.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

<table>
<tr><th colspan="4">Sgiliau Cyfannol</th></tr>
<tr><td rowspan="2">Creadigrwydd ac Arloesi</td><td colspan="3">Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Creadigrwydd ac Arloesi mewn TGAU Celf a Dylunio. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i Ddysgwyr oherwydd mae Cymru'r dyfodol yn dibynnu ar arloesedd a meddylfryd creadigol ei gweithlu - bydd yr hyder i ddefnyddio'r sgiliau hyn yn arwain at fuddiannau economaidd a diwylliannol yn unigol ac mewn cymdeithas.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut y gellid ymgorffori Creadigrwydd ac Arloesi yn yr addysgu a dysgu:</td></tr>
<tr><td>Cyfeirnod y Fanyleb<br><br>Pob un</td><td>Ymhelaethiad</td><td>Enghraifft o Bob Llwybr<br><br>Caiff pob agwedd ar ddysgu mewn Celf a Dylunio ei chymell gan y gofynion a osodwyd yn yr Amcanion Asesu ar gyfer creadigrwydd ac arloesi:<br><br>AA1 Datblygu syniadau a dangos dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol o ffynonellau<br>AA2 Mireinio gwaith trwy archwilio syniadau, gan ddewis ac arbrofi gyda chyfryngau, technegau, offer, technolegau digidol a phrosesau priodol<br>AA3 Adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain, a chofnodi syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau sy'n berthnasol i fwriadau wrth i'r gwaith fynd rhagddo<br>AA4 Cyflwyno ymateb personol ac ystyrlon sy'n gwireddu bwriadau ac yn dangos dealltwriaeth o iaith weledol.<br><br>Er mwyn bodloni'r amcanion asesu uchod, dylid annog dysgwyr i fod yn chwilfrydig ac yn ymholgar, gan archwilio'u diddordebau wedi'u cymell yn bersonol er mwyn i fod yn greadigol fod er budd iddynt. Bydd ymwneud yn bersonol yn eu gwaith eu hunain yn rhyddhau dysgwyr i ymchwilio'n rhydd a gweld cyfleoedd i feddwl yn greadigol wrth iddynt godi.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| Sgiliau Cyfannol | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Dylai profiadau dysgwyr yn y dosbarth gefnogi creadigrwydd ac arloesedd bob amser. Rhaid i athrawon geisio amddiffyn hyn pan fydd cyllid, arbenigedd neu heriau i'r amserlen yn codi. Bydd angen i benderfyniadau craff am gynllunio, annibyniaeth y dysgwyr, cyfleoedd y tu allan i'r dosbarth a dulliau amgen deniadol gael eu gwneud.<br><br>Nid yw meddwl yn greadigol yn digwydd yn sgil athrawon yn rhoi gwybodaeth i ddysgwyr. Yn hytrach, rhaid annog dysgwyr i archwilio, arbrofi, datblygu sgiliau a gwireddu canlyniadau sy'n cael eu cymell gan yr athro a'u hwyluso ganddo. Dylid cefnogi pob aelod o gohort i feddu ar ei ddull unigol ei hun o gyflawni projectau - hyd yn oed lle mae project ymbarél yn digwydd.<br><br>Er mwyn rhoi'r hyder a'r gwydnwch i wneud hyn mewn ffordd soffistigedig, dylid mabwysiadu'r dull hwn o ddysgu ymhell cyn i'r cwrs TGAU ddechrau a dylid dylunio cwricwlwm CA3 o gwmpas y dull archwiliadol ac annibynnol hwn. Ystyriwch a oes modd datblygu dysgu yn CA3 trwy brojectau sy'n efelychu'r unedau yn y cwrs TGAU. Bydd hyn yn galluogi dysgwyr i fod yn brofiadol wrth ddechrau'r cwrs TGAU ym Mlwyddyn 10. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

<table>
<tr><td rowspan="3">Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau</td><td colspan="3">Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau mewn TGAU Celf a Dylunio. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i Ddysgwyr oherwydd mae'r sgìl hwn yn ein galluogi i ddadansoddi ein gwaith, adfyfyrio ar welliannau, ein galluogi i syntheseiddio syniadau i ddatblygu meddwl gwreiddiol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut y gellid ymgorffori Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau yn yr addysgu a dysgu:</td></tr>
<tr><td>Cyfeirnod y Fanyleb</td><td>Ymhelaethiad</td><td>Enghraifft o Bob Llwybr</td></tr>
<tr><td>1.1.4<br><br>1.2.6<br><br>1.2.10</td><td>Dylai dysgwyr ddeall sut i ddadansoddi'n feirniadol ac adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill<br><br>Dylai dysgwyr allu cymhwyso meddwl beirniadol i amrywiaeth eang o gelf, crefft a dylunio o gyd-destunau amrywiol, gan gynnwys ffynonellau y mae pobl eraill wedi dylanwadu arnynt, o wahanol leoedd a chyfnodau gwahanol<br><br>Dylai dysgwyr allu dadansoddi'n feirniadol ac adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill.</td><td>Er mwyn cyrraedd yr Amcanion Asesu yn llwyddiannus, rhaid i ddysgwyr ddefnyddio meddwl yn feirniadol ym mhob un o'u meysydd gwaith. Er mwyn eu helpu i gyflawni’r sgìl hwn i alluogi dysgwyr i ddefnyddio hwn yn annibynnol yn Unedau 1 a 2, dylid rhoi cyfleoedd yng nghyfnod sgiliau sylfaenol cynnar y cwrs. Mae canllawiau wedi'u darparu yn adran Ymhelaethiad o'r Cynnwys y ddogfen hon, er mwyn cefnogi dysgwyr yn y maes hwn. Yn yr achos cyntaf, gall dysgwyr ddysgu i ddadansoddi gwaith arlunwyr eraill, gyda chymorth yr athro a phan fydd patrwm wedi'i sefydlu (boed trwy ddefnyddio deunydd awgrymu, geiriau i ddechrau brawddegau, acronymau), gall dulliau dadansoddi esblygu'n ymateb naturiol a digymell.<br><br>Dylai dysgwyr gymhwyso meddwl beirniadol a gwerthuso i waith arlunwyr eraill, dylunwyr, symudiadau, genres neu arddulliau er mwyn dangos eu bod yn deall y cyfeiriadau cyd-destunol maent yn gweithio gyda nhw (AA1). Gellir dangos hyn drwy anodiadau neu drwy ysgrifennu mwy ffurfiol yn eu llyfr braslunio neu waith paratoadol. Mae'n fwy gwerthfawr o lawer cael un frawddeg yn rhoi barn ar waith dylunydd na rhestr o fanylion bywgraffyddol (yn enwedig os ydyw wedi cael ei gopïo o'r rhyngrwyd).<br><br>Dylid hefyd gymhwyso myfyrdod yn y camau archwilio ac arbrofi (AA2). Gall dysgwyr anodi eu llyfrau braslunio gyda'u meddyliau ar eu cyflawniadau, lle maent yn fodlon gyda chanlyniadau, lle</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | mae pethau wedi mynd o'u lle a sut maent yn bwriadu symud i'r cam nesaf.<br><br>**AA3** yw lle mae gofyniad ffurfiol i 'fyfyrio ar eu gwaith eu hunain, a chofnodi syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau sy'n berthnasol i fwriadau wrth i'r gwaith fynd rhagddo'. Caiff hwn ei asesu ar draws y portffolio cyfan/cyflwyniad Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol ac ni ddisgwylir iddo fod yn ddarn o waith unigol. Dylid gweld myfyrdodau o waith, fel y crybwyllwyd uchod, mewn anodiadau drwy'r amcanion asesu. Gallai'r gwaith o gofnodi syniadau gael ei ysgrifennu, bod yn lluniadau neu ffotograffau wedi'u cofnodi, gallai'r rhain fod yn ddiagramau i ddangos meddwl ac adfyfyrio ar ddatblygiad dyluniad neu gallant fod yn gofnodion dyddiadur mewn blog, yn recordiadau sain neu'n gyfryngau digidol eraill. Gall y cofnod hwn gynnwys dulliau posibl o ddatrys problemau, taflunio canlyniadau gwahanol a dull cynllunio y mae modd ei addasu a'i archwilio.<br><br>Gall gwerthusiad beirniadol ddigwydd ar ddiwedd project (ond nid oes gofyniad ffurfiol i wneud hyn). Caiff dysgwyr hawl i wneud hyn wrth gwblhau Uned 1 ac Uned 2. Yn Uned 1, rhaid i hyn ddigwydd yn y cyfnod amser o fewn yr amser a glustnodir ar gyfer y project (a gellir rhoi amser i hyn yn unol â disgresiwn yr athro). Yn Uned 2, gall gwerthusiad terfynol gael ei gynnal ar ôl y cyfnod amser dan oruchwyliaeth. Gall athrawon roi'r gwerthusiad terfynol i mewn i'r gwaith ar ran y dysgwr cyn yr asesiad. Ni chaniateir fframiau ysgrifennu na chanllawiau awgrymu ar gyfer y gwerthusiad hwn a rhaid iddo gael ei gynnal mewn amgylchedd dan oruchwyliaeth fel nad yw'r defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial na meddalwedd gynhyrchiol ar gael. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

<table>
<tr><td rowspan="4">Cynllunio a Threfnu</td><td colspan="3">Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Cynllunio a Threfnu mewn TGAU Celf a Dylunio. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i Ddysgwyr oherwydd mewn llawer o broffesiynau, ac yn benodol mewn Dylunio a Phensaerïaeth, mae projectau a chyflwyniadau yn cael eu gosod fel terfynau amser. Gall methu â bodloni terfynau amser beryglu cyfleoedd masnachol a siomi cleientiaid a rhanddeiliaid eraill.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut y gellid ymgorffori Cynllunio a Threfnu yn yr addysgu a dysgu:</td></tr>
<tr><td>Cyfeirnod y Fanyleb</td><td>Ymhelaethiad</td><td>Enghraifft o Bob Llwybr</td></tr>
<tr><td>1.2.1</td><td>Dylai dysgwyr allu datblygu ac ymchwilio, gan ddefnyddio sgiliau archwilio a dadansoddi i gefnogi chwilfrydedd ymchwiliol parhaus</td><td>Er mwyn bodloni terfyn amser llym Uned 2, yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol, rhaid i ddysgwyr gynllunio eu project yn fethodolegol ac yn bwrpasol. Rhaid dewis o'r ‘Syniad Mawr’ yn gyflym, ymgymryd â gwaith ymchwil cychwynnol yn brydlon a nodi amser ar gyfer ymchwiliadau archwiliadol.</td></tr>
<tr><td>1.2.7</td><td>Dylai dysgwyr allu ystyried eu bwriadau creadigol eu hunain a sut i'w cyfleu i gynulleidfa drwy gyflwyno, arddangos a/neu rannu eu gwaith creadigol eu hunain yn effeithiol ac yn briodol</td><td>Yn dibynnu ar anghenion penodol y ganolfan, mae tua 12 wythnos rhwng rhyddhau'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol i ddysgwyr ar ddechrau tymor y gwanwyn a dyrannu'r cyfnod amser dan oruchwyliaeth (10 awr). Bydd gan bob canolfan ddigwyddiadau penodol i'w hystyried o fewn y cyfnod hwnnw – arholiadau ffug ac ati. Gall yr athro ddarparu amlinelliad o'r project dan arweiniad i ddysgwyr gyda phennawd wythnosol. O fewn hynny, bydd i fyny i'r dysgwr ychwanegu manylion at y rhaglen ac i fesur ei gynnydd yn ei herbyn. Gall yr athro arwain y garfan h.y.: ‘Dylech fod yn dod i gasgliad gyda'ch ymchwil gychwynnol erbyn y cam hwn’, ond ni chaniateir arweiniad mwy penodol.<br><br>Pob Llwybr:<br>Yn ystod y ddwy Uned, ond yn enwedig Uned 2, wrth i gynlluniau gael eu gwireddu i ddatblygu'r canlyniad terfynol, dylid ystyried sut bydd gynulleidfa fwriadedig yn edrych ar y gwaith ac yn gwneud cynlluniau ar gyfer ei arddangos. Gellir gwneud mowntiau syml ar ôl y cyfnod dan oruchwyliaeth yn</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Uned 2, ond rhaid cynllunio ar gyfer unrhyw beth mwy cymhleth na hyn a'i wneud o fewn y 10 awr.<br><br>Dylai fod gan ddysgwyr eisoes brofiad o gynllunio ar gyfer Uned 2 fel cyfanwaith, mae cynllunio'r 10 awr ei hun yn sgìl manylach ond yn ei hanfod, cynllun syml ydyw wedi'i rannu'n gamau, a hynny yn dibynnu ar y Llwybr a chanlyniad bwriadedig y dysgwyr. Ni ellir rhoi arweiniad o gwbl ar hyn o fewn y cyfnod amser dan oruchwyliaeth - hyd yn oed os bydd yr amseroedd yn mynd o'i le yn ddifrifol!<br><br>Mae'r cyfnod amser dan oruchwyliaeth yn cynnig sefyllfa ansicr i ddysgwyr a gall brofi'n straen. Bydd cynllunio ar gyfer hyn, dysgu i ymgorffori amser os na fydd pethau'n mynd yn unol â'r bwriad, yn helpu'r dysgwyr i wneud penderfyniadau creadigol ar sail gwybodaeth ar y dydd. Os byddant yn gwybod eu bwriadau, wedi rhagweld canlyniadau posibl gwahanol ac wedi cynllunio ar gyfer achosion amrywiol – hyd yn oed os bydd y rheini'n elfennol – byddant yn meithrin gwydnwch ac yn gallu ymateb yn gadarnhaol i newid wrth iddo godi. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

<table>
<tr><td rowspan="4">Effeithiolrwydd Personol</td><td colspan="3">Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Effeithiolrwydd Personol mewn TGAU Celf a Dylunio. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i Ddysgwyr oherwydd mae'n galluogi dysgwyr i feithrin eu dealltwriaeth o sut y gallant gyfrannu at gymdeithas a'r byd gwaith, gyda'r sgiliau i fyfyrio ar eu perfformiad a datblygu agwedd o welliant parhaus.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut y gellir ymgorffori Effeithiolrwydd Personol yn yr addysgu a dysgu:</td></tr>
<tr><td>Cyfeirnod y Fanyleb</td><td>Ymhelaethiad</td><td>Enghraifft o Bob Llwybr</td></tr>
<tr><td>1.1.4</td><td>Dylai dysgwyr wybod sut i ddadansoddi'n feirniadol ac adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill</td><td>O fewn yr adran uchod, ‘Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau’ ac yn yr ‘Ymhelaethiad o'r Cynnwys’, rydym wedi ystyried sut mae dadansoddi beirniadol yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau mewn gwerthuso. Bydd hyn hefyd yn helpu dysgwyr i fesur eu heffeithiolrwydd personol. Yng nghamau cynnar y cwrs, gellir datblygu hyn ar y cyd, gan annog beirniadaeth a dadl am waith arlunwyr eraill a gwaith ei gilydd, mewn sefyllfa ‘crit’ – ond mae angen rheoli hyn yn ofalus er mwyn sicrhau profiad cadarnhaol.</td></tr>
<tr><td>1.2.8</td><td>Dylai dysgwyr allu adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain, ei fireinio a’i werthuso</td><td>Yn nes ymlaen yn y cwrs ac yn Uned 1, daw hyn yn fwy adfyfyriol, ond po fwyaf aml y caiff ei ymarfer, y mwyaf hyderus y daw'r dysgwyr wrth ddeall bwriad gwerthuso a gallu gweithio i wella camau dilynol eu project.<br><br>Os bydd gwerthusiad crynodol yn cael ei gyflawni ar ddiwedd Uned 1, gall dysgwyr ddefnyddio hwn i lywio'u dull yn Uned 2 sydd i ddod. Bydd meysydd llwyddiant a gofynion ar gyfer gwella yn ffres yn eu cof. Gellir ymgorffori hyn yng ngwaith cynllunio personoledig y dysgwr ar gyfer Uned 2, gan roi cyfrifoldeb iddynt a'r gallu i wneud penderfyniadau annibynnol ar gyfer eu canlyniadau eu hunain, yr union beth sy'n ofynnol i'w weld er mwyn cyrraedd y bandiau marciau uchaf.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2025

# Dehongli Amcanion Asesu mewn Llwybrau

## AA1

**Datblygu syniadau a dangos dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol o ffynonellau.**

Datblygu syniadau sydd wedi'u llywio drwy ymchwilio i astudiaethau cyd-destunol o gelf a dylunio sy'n berthnasol i'r meysydd astudio dethol yn lleoliadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol y dysgwyr. Gall hyn gynnwys ffynonellau fel pensaernïaeth, cerddoriaeth, dawnsio, drama, ffilm a chyfryngau cyhoeddedig.

Archwilio amrywiaeth eang o waith wedi'i gynhyrchu gan arlunwyr a dylunwyr. Nodi eu dulliau, pwrpasau a bwriadau a pham y maent yn berthnasol i ymchwiliadau'r dysgwyr.

Dangos tystiolaeth o sgiliau dadansoddi drwy werthuso, cymharu a chyferbynnu gwaith arlunwyr, crefftwyr a dylunwyr perthnasol a/neu ffynonellau hanesyddol a chyd-destunol eraill. Esboniwch sut mae'r dystiolaeth hon yn llywio'u gwaith eu hunain.

Cynyddu ymwybyddiaeth o’r amrywiaeth eang o brosesau a chanlyniadau celf a dylunio a’r gwahaniaethau rhwng meysydd arbenigol o fewn llwybrau amrywiol , h.y.:

- gwaith crefft metel, lluniadu a pheintio a gosod o fewn celf, crefft a dylunio
- cerflunwaith, cerameg, gwneud printiau a pheintio mewn celfyddyd gain
- patrwm arwyneb wedi'i brintio, tecstilau wedi'u gwehyddu a dylunio ffasiwn ym maes dylunio tecstilau
- dylunio cynnyrch, pensaernïaeth, pypedwaith ym maes dylunio 3D
- darlunio, dylunio'r we a dylunio pecynnau mewn cyfathrebiadau graffig.
- Ffotonewyddiaduraeth, creu ffilmiau ac artistiaid fideo

## AA2

**AA2 Mireinio gwaith trwy archwilio syniadau, gan ddewis ac arbrofi gyda chyfryngau, technegau, offer, technolegau digidol a phrosesau priodol.**

Mireinio gwaith ac adfyfyrio arno wrth iddo fynd yn ei flaen trwy archwilio syniadau a dewis ac arbrofi â chyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau priodol. Defnyddio'r rhain yn ddiogel ac yn fedrus i wneud y mwyaf o botensial creadigol a chynhyrchu canlyniadau o ansawdd.

Archwilio amrywiaeth ysgogol a chyfoethog o adnoddau er mwyn cychwyn a datblygu syniadau arloesol. Rhoi sylw dyledus i linell, tôn, lliw, siâp, gwead ac elfennau gweledol eraill, gan ddefnyddio lluniadu i archwilio a chyfleu syniadau.

Darparu tystiolaeth o astudiaeth o ddyfnder ac ehangder priodol, dangos rheolaeth o gyfryngau a thechnegau sy'n briodol i'r llwybr dethol h.y.:

- Mireinio'r gwaith o ddylunio a chynhyrchu darnau ceramig ym maes celf, crefft a dylunio
- Defnyddio tôn neu liw yn effeithiol mewn celfyddyd gain
- Mireinio manylion wrth ddatblygu patrwm arwyneb mewn dylunio tecstilau
- Ystyriaeth drwyadl o ddefnyddiau priodol mewn dylunio 3D
- Meithrin cydberthnasau rhwng teipograffeg a delweddau mewn cyfathrebiadau graffig.
- Mireinio prosesau digidol neu gemegol, cyfansoddi a defnyddio goleuo mewn ffotograffiaeth

Dangos dirnadaeth wrth adolygu syniadau wrth i’r gwaith ddatblygu. Esbonio penderfyniadau allweddol yn weledol neu drwy ddefnyddio anodiadau.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## AA3

**Adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain, a chofnodi syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau sy'n berthnasol i fwriadau wrth i'r gwaith fynd rhagddo**.

Drwy ymchwil bersonol ystyriol, casglu, dewis, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth o ffynonellau sylfaenol amrywiol.

Cofnodi syniadau, arsylwadau, mewnwelediadau a safbwyntiau drwy luniadu, ffotograffau ac anodi neu ffyrdd addas eraill, er mwyn cefnogi bwriadau personol a pherthnasol i'r llwybr dethol h.y.:

- Trwy astudiaethau llinell, lliw, tonyddol a gweadeddol mewn celf, crefft a dylunio
- Trwy gyfnodolion braslunio dyddiol mewn celfyddyd gain
- Trwy gyfuno haenau a phwytho gan ddefnyddio brodwaith braich rydd mewn dylunio tecstilau.
- Trwy frasluniau, diagramau a lluniadau technegol mewn dylunio 3D
- Trwy frasluniau bawd a byrddau stori mewn cyfathrebiadau graffig
- Trwy ddalennau cyswllt wedi'u hanodi mewn ffotograffiaeth

Adfyfyrio'n feirniadol ar waith wrth iddo fynd yn ei flaen er mwyn adolygu beth ddysgwyd ac ystyried sut i symud ymlaen, gan nodi cyfleoedd i drosglwyddo gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth i gyd-destunau newydd.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| AA4 |
| --- |
| **Cyflwyno ymateb personol ac ystyrlon sy'n gwireddu bwriadau ac yn dangos dealltwriaeth o iaith weledol.**<br><br>Cyflwyno canlyniadau terfynol personol a llawn dychymyg ac sydd, ynghyd â thystiolaeth ddetholus o brosesau meddwl a chynhyrchu, yn gwireddu’n effeithiol y bwriadau a nodwyd gan y myfyriwr ac yn amlygu dealltwriaeth feirniadol o ddulliau cyfathrebu gweledol a chyffyrddol a dulliau cyfathrebu eraill lle y bo’n briodol.<br><br>Gwneud cysylltiadau pendant rhwng gwahanol elfennau o'r cyflwyniad, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, yn cyflwyno gwaith sy'n ystyrlon, hyddysg ac mewn trefn sydd yn hawdd i'w ddilyn.<br><br>Ystyried ffurfiau cyflwyno gwahanol a dewis yr un fwyaf priodol ar gyfer y cyflwyniad. Dylid ystyried sut i ennyn diddordeb cynulleidfa real neu ddychmygus, Bydd hyn at ddibenion gwahanol ac mae'n debygol o gymryd ffurfiau gwahanol, yn dibynnu ar y llwybr dethol, h.y.:<br>• Gosod baneri wedi'u printio mewn gofod i'r cyhoedd yn rhan o gyflwyniad celf, crefft a dylunio.<br>• Paentiad portreadol o aelod o'r teulu, gan gyfathrebu â chynulleidfa gyffredinol mewn arddangosfa celfyddyd gain.<br>• Gwisg theatr ar gyfer cynhyrchiad ysgol ar gyfer cyflwyniad dyluniad tecstilau, sy'n annerch cymuned ysgol.<br>• Dangos cyfuniad o estheteg a swyddogaeth dodrefn i gwsmeriaid adwerthwr a awgrymwyd mewn Dylunio 3D.<br>• Arddangos poster maint llawn neu hysbyseb ar-lein ar gyfer gŵyl gerddoriaeth yn rhan o gyflwyniad cyfathrebiad graffig.<br>• Taflunio delweddau drwy sleidiau analog neu ddigidol ar gyfer cynulleidfa gyffredinol mewn arddangosfa. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025